Dadansoddi ar gyfer Polisi

YMCHWIL GYMDEITHASOL Y LLYWODRAETH

GSR

GOVERNMENT SOCIAL RESEARCH

Analysis for Policy

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

RHIF YMCHWIL GYMDEITHASOL:
114/2023
DYDDIAD CYHOEDDI:
07/12/2023

# Profiadau plant a phobl ifanc o gymryd rhan mewn gweithrediadau preifat yn y llysoedd teulu

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

This document is also available in English.

OGL © Hawlfraint y Goron ISBN Digidol 978-1-83577-169-3

Teitl: Profiadau plant a phobl ifanc o gymryd rhan mewn gweithrediadau preifat yn y llysoedd teulu

Awdur(on): Jones, Rebecca

Adroddiad Ymchwil Llawn: Jones, Rebecca ; (2023). *Profiadau plant a phobl ifanc o gymryd rhan mewn gweithrediadau preifat yn y llysoedd teulu*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru, GSR adroddiad rhif 114/2023
Ar gael yn: https://www.llyw.cymru/profiadau-plant-phobl-ifanc-o-gymryd-rhan-mewn-achosion-preifat-yn-y-llysoedd-teulu

Barn yr ymchwilydd a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid barn Llywodraeth Cymru o reidrwydd

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:
Laura Entwistle
Yr Is-adran Ymchwil Gymdeithasol a Gwybodaeth
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
E-bost: ymchwil.iechydagwasanaethaucymdeithasol@llyw.cymru

## Tabl cynnwys


Cydnabyddiaethau .......... 2

Rhestr o dablau .......... 3

Rhestr Termau .......... 4

1. Cyflwyniad .......... 5

2. Methodoleg .......... 10

3. Canfyddiadau:cyfweliadau â'r plant .......... 18

4. Canfyddiadau: grwpiau ffocws â Chynghorwyr Llys Teulu .......... 42

5. Casgliadau .......... 52

6. Argymhellion .......... 57

7. Cyfeiriadau .......... 60

8. Atodiadau .......... 63

Atodiad A: Amserlen gyfweld y grwpiau ffocws .......... 63

Atodiad B: nodweddion y samplau .......... 65

Atodiad C: Amserlen gyfweld .......... 67

Atodiad D: Fframwaith codio .......... 70

**Cydnabyddiaethau**

Hoffem ddiolch i'r plant a'r bobl ifanc a gymerodd ran yn yr astudiaeth hon ac a rannodd eu profiadau, ac i'w rhieni am hwyluso hynny. Hoffem hefyd ddiolch i aelodau o Fwrdd Pobl Ifanc Cyfiawnder Teuluol am eu cymorth i lunio cwestiynau'r cyfweliad.

Diolch hefyd i'r Cynghorwyr Llys Teulu yn Cafcass Cymru a roddodd o'u hamser gwerthfawr i fod yn bresennol mewn grwpiau ffocws, ac i'r staff a gynorthwyodd gyda'r prosiect ymchwil, yn enwedig Anna Sinclair, Matthew Pinnell ac Amy Lloyd. Diolch hefyd i Laura Entwistle a Chris Roberts am eu cymorth i gyflawni'r prosiect.

**Rhestr o dablau**

Tabl 1: Nodweddion y sampl gyfweld....65
Tabl 2: Nodweddion sampl y grwpiau ffocws....66
Tabl 3: Fframwaith codio thematig – cyfweliadau â'r plant....70
Tabl 4: Fframwaith codio thematig –cyfweliadau â'r grwpiau ffocws....74

**Rhestr Termau**

| Byrfodd/Gair allweddol | Diffiniad |
|---|---|
| Achos 16:4 | O dan Reol 16.4 o Reolau Trefniadaeth Teulu 2010, gall plant ddod yn barti yn y gweithrediadau mewn achosion cymhleth. Mae hyn yn caniatáu i blentyn gael ei wneud yn 'barti' yn y gweithrediadau a chael cynrychiolaeth gyfreithiol yn ei rinwedd ei hun drwy Warcheidwad. |
| BAU | Busnes fel arfer |
| CAO | Gorchymyn Trefniadau Plentyn |
| CAP | Rhaglen Trefniadau Plentyn |
| CIA | Asesiad o'r Effaith ar y Plentyn (a baratoir gan Cafcass Cymru o dan y model busnes fel arfer) |
| CIR | Adroddiad ar yr Effaith ar y Plentyn (a baratoir gan Cafcass Cymru o dan y model Braenaru) |
| DA | Cam-drin domestig |
| FCA | Cynghorydd Llys Teulu |
| FHDRA | Apwyntiad Datrys Anghydfod Gwrandawiad Cyntaf |
| Gorchymyn mater penodol | Mae'r gorchymyn hwn yn cael ei wneud gan y llys teulu pan fydd mater pwysig i'w ddatrys ond na all y rhieni gytuno arno. Er enghraifft, i ba ysgol y dylai plentyn fynd. |
| HCP | Rhieni sy'n anghyd-weld |
| Rhan 2 | Adroddiad pellach y gall y llys gyfarwyddo Cafcass Cymru i'w baratoi o dan y model Braenaru. |
| PSO | Gorchymyn camau gwaharddedig – Gall y llys teulu atal rhiant rhag gwneud rhywbeth nad yw'r rhiant arall am iddo/iddi ei wneud. Y math mwyaf cyffredin yw pan fydd rhiant yn cael ei atal rhag symud dramor gyda'r plentyn neu'r person ifanc. |

# 1. Cyflwyniad

1.1 Ystyriodd yr astudiaeth ymchwil hon brofiadau plant a phobl ifanc o gymryd rhan mewn achosion cyfraith breifat yn y llysoedd teulu yng Ngogledd Cymru. Ystyr cymryd rhan yw bod pobl yn cael eu cynnwys yn y sefydliadau a'r penderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywydau (Checkoway, 2011)

1.2 Mae hawl plant i gymryd rhan mewn penderfyniadau a wneir yn eu cylch wedi'i hymgorffori yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) Mae'n rhaid i weithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda phobl ifanc mewn rôl statudol sicrhau bod pobl ifanc yn cael yr hawl i fynegi eu barn ac y rhoddir pwys priodol ar y farn honno yn unol ag Erthygl 12 o CCUHP (Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, 1989). O dan Ddeddf Plant 1989, mae'n rhaid i'r llysoedd teulu ystyried rhestr wirio lles (adran 1.3) wrth benderfynu beth fydd er budd pennaf plentyn. Mae hyn yn cynnwys rhoi sylw dyladwy i ddymuniadau a theimladau canfyddadwy'r plentyn a hefyd sicrhau bod lles y plentyn o'r pwys mwyaf ar yr un pryd (Deddf Plant, 1989, adran 1.1).

1.3 Ystyriodd yr ymchwil brofiadau plant a phobl ifanc a gymerodd ran o dan y prosiect ‘Braenaru’, sef model newydd sy'n cael ei dreialu yn y llysoedd teulu yn y gogledd.

1.4 Nod ‘Braenaru’ yw gwella profiadau a chanlyniadau i deuluoedd sy'n gofyn i'r llys teulu am gymorth i wneud trefniadau ar gyfer eu plant. Mae'r model Braenaru yn newid y ffordd y gweithir gyda theuluoedd mewn gweithrediadau preifat fel arfer. Mae'r cynllun peilot yn rhoi mwy o gyfle i blant a phobl ifanc fynegi eu dymuniadau a'u teimladau, gyda'r nod o sicrhau bod y llysoedd yn ystyried barn plant yn gynharach yn ystod y broses gwneud penderfyniadau.

1.5 Comisiynwyd yr astudiaeth hon gan Cafcass Cymru i ystyried effaith y model Braenaru ar brofiadau plant o gymryd rhan mewn gweithrediadau preifat a deall a yw'n rhoi mwy o lais iddynt.

### Cefndir

*Y cyd-destun ymarfer*

1.6 O dan weithrediadau cyfraith breifat mae rhiant sydd wedi gwahanu, neu aelod arall o'r teulu, yn gofyn i'r llys teulu benderfynu ar drefniadau ar gyfer ei blant/phlant,

megis gyda phwy y bydd y plentyn yn byw a gyda phwy y bydd yn treulio ei amser. Gellir gwneud ceisiadau i ffurfioli trefniadau gofal a rennir y cytunwyd arnynt, er mwyn diogelu dioddefwyr a/neu'r rhai sy'n wynebu risg o gam-drin domestig, neu lle nad yw'r rhieni wedi llwyddo i gytuno ar drefniadau. Mewn rhai achosion, mae'r rhieni yn anghyd-weld, ac mae teuluoedd o dan gryn dipyn o straen.

1.7 Pan fydd rhieni yn gwneud cais i'r llysoedd teulu yng Nghymru, bydd y llys teulu yn penodi Cafcass Cymru i asesu a gwneud argymhellion ynglŷn â'r hyn a fydd er budd pennaf y plentyn/plant.

*Y cyd-destun ymchwil*

1.8 Mae'r ymchwil yn dangos, pan fydd rhieni yn gwahanu, fod hyn yn gallu achosi straen fawr i'r plant a bod prosesau'r llys yn aml yn gwneud y sefyllfa yn waeth (Butler et al., 2002). Fodd bynnag, ceir rhywfaint o ymchwil gyfredol sy'n canolbwyntio ar brofiadau plant o weithrediadau cyfraith breifat yng Nghymru a Lloegr.

1.9 Canfu adolygiad diweddar o'r dystiolaeth hon gan Arsyllfa Cyfiawnder Teuluol Nuffield (2021) fod plant sy'n cael profiad o weithrediadau preifat yn aml yn teimlo nad oeddent yn cael llawer o wybodaeth, nad oedd neb yn gwrando arnynt ac nad oeddent yn cael fawr ddim cyfle i leisio barn pan oedd penderfyniadau yn cael eu gwneud yn eu cylch (Roe et al., 2021). Mae hyn yn arbennig o wir am blant iau (o dan 10 oed) sy'n fwy tebygol o fod yn destun gweithrediadau llys na phlant hŷn (Cusworth et al., 2020; Cusworth et al., 2021).

1.10 Yn wir, mae ymchwil flaenorol yn dangos bod plant yn chwarae rhan weithredol pan fydd rhieni yn gwahanu, eu bod yn aml yn ymwybodol o'r anghydfodau yn eu teulu, eu bod am gael gwybod beth sy'n digwydd a'u bod am i eraill gymryd eu barn o ddifrif (Symonds et al., 2022).

*Y cyd-destun polisi*

1.11 Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, bu galw am welliannau i'r ffordd y caiff teuluoedd sy'n gwahanu, yn enwedig y rhai sydd wedi wynebu cam-drin domestig, eu cefnogi mewn achosion cyfraith breifat (Hunter et al., 2020). Un rhan allweddol o hyn yw

lleihau'r risg y bydd gweithrediadau yn aildrawmateiddio plant a rhieni sydd eisoes yn agored i niwed (Gweithgor Cyfraith Breifat, 2020).

1.12 Er y cydnabyddir yn gyffredinol y dylid cymryd llai o amser i ddatrys achosion cyfraith breifat er mwyn lleihau ansicrwydd a niwed i blant (y Weinyddiaeth Gyfiawnder, 2023), mae hefyd yn amlwg bod yn rhaid i unrhyw raglen ddiwygio gydbwyso'r angen i ddatrys achos yn amserol a sicrhau bod penderfyniadau yn ymarferol i deuluoedd fel y bydd llai o risg o ragor o geisiadau yn y dyfodol, lle bynnag y bo modd.

1.13 Er mwyn rhoi prawf ar rai o'r cynigion i ddiwygio a gyflwynwyd, lansiwyd prosiect ‘Braenaru’ o dan arweiniad y Weinyddiaeth Gyfiawnder yng Ngogledd Cymru ac yn Dorset ym mis Chwefror 2022 fel cynllun peilot dwy flynedd.

**Y model Braenaru**

1.14 Mae'r model Braenaru yn anelu at wella profiadau a chanlyniadau i deuluoedd sy'n destun gweithrediadau preifat drwy wella ymatebion i gam-drin domestig a newid natur wrthwynebol gweithrediadau. Mae hefyd yn anelu at gynnig datrysiad cyflymach a mwy effeithiol i deuluoedd, ac, fel y cyfryw, leihau nifer y ceisiadau cyfraith breifat a wneir eto.

1.15 Yr allwedd i wella profiadau o weithrediadau, a sicrhau datrysiadau effeithiol a chynaliadwy i deuluoedd, yw cynnwys plant yn fwy effeithiol mewn gweithrediadau y maent yn rhan ohonynt. Mae cynnwys plant yn golygu sicrhau eu bod yn cael cyfle i gymryd rhan a chyfrannu at benderfyniadau a wneir gan y llys. Mae hefyd yn golygu sicrhau eu bod yn cael gwybod am y broses a chanlyniadau gweithrediadau, ac yn cael cyfle i leisio barn (Thomas, 2007).

1.16 I'r perwyl hwn, mae'r model Braenaru yn cyflwyno newidiadau allweddol i'r ffordd y mae plant yn cael eu cynnwys mewn gweithrediadau preifat. O dan y model ‘busnes fel arfer’ neu'r Rhaglen Trefniadau Plentyn, pan fydd rhiant yn gwneud cais i'r llys teulu, trefnir Apwyntiad Datrys Anghydfod Gwrandawiad Cyntaf (Cyfarwyddyd Ymarfer 12b). Mae Cafcass Cymru yn paratoi adroddiad byr ar gyfer y gwrandawiad llys hwn yn seiliedig ar wiriadau diogelu a chyfweliadau dros y ffôn â'r ddau riant. Ni siaredir â phlant ar y cam hwn, a bwriad y broses yw y dylai achosion gael eu datrys

yn yr Apwyntiad Datrys Anghydfod Gwrandawiad Cyntaf pan fo'n ddiogel gwneud hynny. Os na all rhieni gytuno ac os credir nad oes unrhyw faterion lles yn codi, y tebyg yw y bydd yr achos yn cael ei restru ar gyfer gwrandawiad a ymleddir. Dim ond mewn achosion mwy cymhleth neu achosion lle y cyfyd cwestiwn ynglŷn â lles y plentyn, y gallai'r llys orchymyn i Cafcass Cymru baratoi adroddiad lles o dan adran 7, a elwir hefyd yn Dadansoddiad o'r Effaith ar y Plentyn, ynglŷn â'r hyn a fydd er budd pennaf y plentyn yn nhyb Cafcass Cymru. Ar y cam hwn, caiff Cynghorydd Llys Teulu ei neilltuo i'r teulu a bydd yn cyfarfod â'r plentyn er mwyn deall ei farn ar yr achos.

1.17 O dan y model Braenaru, pan fydd rhieni yn gwneud cais, mae'r llys teulu yn gofyn i Cafcass Cymru baratoi Adroddiad ar yr Effaith ar y Plentyn yn y lle cyntaf (Cyfarwyddyd Ymarfer 36z). Mae hwn yn seiliedig ar wiriadau diogelu a sgyrsiau â'r ddau riant ond hefyd â'r plant eu hunain lle y tybiwyd bod hynny'n briodol. Felly, mae Adroddiad ar yr Effaith ar y Plentyn yn wahanol i Asesiad o'r Effaith ar y Plentyn yn yr ystyr yr ymgynghorir â phlant yn gynharach yn ystod y broses ac o fewn terfyn amser byrrach (rhaid i Cafcass Cymru ffeilio'r Adroddiad ar yr Effaith ar y Plentyn o fewn chwe wythnos). Mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar lais y plentyn a'r hyn sydd orau iddo. Anfonir yr Adroddiad ar yr Effaith ar y Plentyn i'r llys cyn bod unrhyw wrandawiadau yn cael eu trefnu.

1.18 Er bod y model busnes fel arfer yn golygu bod penderfyniadau yn cael eu gwneud heb gadarnhau safbwyntiau plant fel mater o drefn, mae'r model Braenaru yn rhoi mwy o fynediad i Gynghorwyr Llys Teulu at y plant a mwy o hyblygrwydd i ymgysylltu â nhw. Mae hefyd yn rhoi mwy o wybodaeth i farnwyr seilio eu penderfyniadau arnynt ar gam cynharach nag y byddai'n digwydd o dan y model busnes fel arfer.

1.19 Y nod yw bod dymuniadau a theimladau plant yn cael eu deall a'u cynnwys yn y broses gwneud penderfyniadau yn gynharach. Dylai hyn wella ansawdd datrysiadau cyfraith breifat a pha mor gyflym y cânt eu cyflwyno.

**Nodau, amcanion a chwestiynau ymchwil**

1.20 Nod yr ymchwil yw deall effaith y prosiect Braenaru ar gyfranogiad plant a beth yw profiad y rhai ar lawr gwlad o'r newidiadau a gyflwynwyd o dan y model.

1.21 Drwy ymgysylltu â Chynghorwyr Llys Teulu Cafcass Cymru a phlant sydd â phrofiad o weithrediadau preifat, ystyriodd yr ymchwil y cwestiynau ymchwil canlynol:

- Beth yw profiadau plant a phobl ifanc sydd wedi bod yn rhan o'r model Braenaru mewn perthynas â chymryd rhan?
- Beth y dylid ei wneud, os unrhyw beth, i wella'r ffordd y mae plant yn cymryd rhan a sicrhau bod mwy o lais ganddynt mewn gweithrediadau cyfraith breifat?

1.22 Mae'r ymchwil yn adeiladu ar waith blaenorol ar y ffordd y mae plant yn cymryd rhan mewn gweithrediadau preifat (Roe et al., 2021) er mwyn datblygu'r sylfaen dystiolaeth ar hyrwyddo cymryd rhan yn y llysoedd teulu. Bydd canfyddiadau'r ymchwil yn llywio ymchwil yn y dyfodol a gwerthusiad ym maes cyfiawnder teuluol a chânt eu defnyddio i ddatblygu argymhellion ar gyfer ymarfer.

1.23 Mae adran dau yn amlinellu'r dulliau a ddefnyddir i gasglu a dadansoddi data. Mae adran tri yn cyflwyno'r canfyddiadau o dan themâu. Mae adran pedwar yn myfyrio ar y canfyddiadau hyn drwy ddwyn ynghyd ddata o wahanol ffynonellau. Mae adran pump yn tynnu sylw at gryfderau a chyfyngiadau'r astudiaeth ac mae adran chwech yn cyflwyno argymhellion ynglŷn â sut y gellir gwella'r ffordd y mae plant yn cymryd rhan mewn gweithrediadau preifat.

## 2. Methodoleg

2.1 Defnyddiodd yr astudiaeth hon ddulliau ansoddol i ateb y cwestiynau ymchwil. Dulliau ansoddol swydd fwyaf priodol ar gyfer astudiaethau sy'n ystyried profiadau uniongyrchol, agweddau a chredoau am eu bod yn rhoi cyfle i ystyried safbwyntiau goddrychol yn fanwl (Silvernman, 2013). Maent hefyd yn rhoi cyfle i gadw'r lleisiau'r rhai sy'n cymryd rhan sy'n agwedd bwysig ar unrhyw astudiaeth sy'n ystyried cyfranogiad plant (Grover, 2004).

2.2 Roedd yr astudiaeth yn archwiliadol ei natur; a hon oedd yr astudiaeth gyntaf o'i bath i ystyried cyfranogiad plant yn benodol mewn perthynas â'r prosiect Braenaru. Mae hefyd yn ddisgrifiadol yn yr ystyr ei bod wedi'i hanelu at gael dealltwriaeth fanwl o brofiadau plant o weithrediadau y gellid eu defnyddio i lywio ymarfer yn y dyfodol.

**Cynllunio'r astudiaeth a dewis y dulliau**

2.3 Yn unol â'r nodau archwiliadol a disgrifiadol hyn, defnyddiodd yr astudiaeth grwpiau ffocws ar-lein â Chynghorwyr Llys Teulu a chyfweliadau lled-strwythuredig ar-lein â phlant a phobl ifanc.

2.4 Y rhesymeg dros ddefnyddio grwpiau ffocws â Chynghorwyr Llys Teulu oedd y byddent yn cynnig amrywiaeth eang o safbwyntiau ar gyfranogiad ac yn annog trafodaeth fanwl rhwng cyfranogwyr.

2.5 Ni fyddai grwpiau ffocws wedi bod yn briodol i blant na phobl ifanc oherwydd ystyriaethau moesegol ynglŷn â chyfrinachedd. Diystyrwyd arolygon ar gam cynnar am fod cyfraddau ymateb i arolygon a gynhelir â'r garfan hon wedi bod yn isel a bod problemau wedi codi gydag ansawdd data (Bailey et al., 2011).

2.6 Yn lle hynny, dewiswyd cyfweliadau lled-strwythuredig am eu bod yn tueddu i gynhyrchu data ansoddol cyfoethog a manwl a hefyd roi cyfle i blant a phobl ifanc rannu eu profiadau yn eu geiriau eu hunain.

2.7 Roedd y penderfyniad i ddefnyddio dulliau ar-lein yn ymarferol ac yn foesegol. Mae'r lleoliadau lle mae'r model Braenaru yn cael ei roi ar waith yn wledig ac yn rhychwantu ardaloedd daearyddol mawr. Roedd cyfweliadau ar-lein yn golygu bod modd cymryd rhan heb fynd i gostau teithio a oedd felly'n lleihau'r baich ar y rhai a

oedd yn cymryd rhan. Gwnaeth y tîm ymchwil gynnig yr opsiwn o gyfweliad wyneb yn wyneb pe bai teuluoedd yn dewis hynny, er mwyn sicrhau nad oedd neb wedi cael ei atal rhag cymryd rhan oherwydd diffyg mynediad at dechnoleg.

**Datblygu offerynnau ymchwil**

2.8 Nod y grwpiau ffocws oedd deall sut roedd y model Braenaru yn effeithio ar gyfranogiad plant a phobl ifanc mewn gweithrediadau ym marn Cynghorwyr Llys Teulu Cafcass Cymru, sut roedd gweithwyr proffesiynol yn cynnwys plant a phobl ifanc yn eu hymarfer eu hunain a beth y gellid ei wella ynglŷn â'r model yn eu tyb nhw.

2.9 Datblygwyd amserlenni cyfweld grwpiau ffocws gyda mewnbwn Cafcass Cymru ac fe'u llywiwyd gan sgyrsiau anffurfiol â rhanddeiliaid allweddol yn y sector, gan gynnwys arweinwyr polisi, academyddion a'r rhai sy'n gweithio ar gyfranogiad plant yn y trydydd sector. Ceir amserlen gyfweld y grwpiau ffocws yn atodiad A.

2.10 Nod y cyfweliadau â phlant a phobl ifanc oedd ystyried eu profiadau o gymryd rhan mewn achosion cyfraith breifat. Yn benodol, i ba raddau roeddent yn teimlo eu bod wedi cael gwybodaeth, wedi cael eu cefnogi a bod eraill yn gwrando arnynt yn ystod gweithrediadau, a beth helpodd y plant i gymryd rhan pan oedd penderfyniadau pwysig yn cael eu gwneud yn eu cylch.

2.11 Datblygwyd amserlenni cyfweld â'r plant gyda mewnbwn Cafcass Cymru ac fe'u llywiwyd gan drafodaeth y grwpiau ffocws a sgyrsiau anffurfiol â Chynghorwyr Llys Teulu a oedd â phrofiad o weithio gyda phlant a phobl ifanc mewn gweithrediadau preifat. Rhoddodd y Bwrdd Pobl Ifanc Cyfiawnder Teuluol adborth manwl ar amserlen gyfweld ddrafft fel rhan o weithdy a hwyluswyd gan yr ymchwilydd.

2.12 Roedd y cyfweliadau â'r plant yn cynnwys: ymarfer torri'r garw, cwestiynau penagored, gweithrediadau strwythuredig, a chwestiynau graddio. Roeddent wedi'u cynllunio i ysgogi naratifau ynglŷn â chymryd rhan, annog trafodaeth a chynhyrchu

data ansoddol manwl. Ni ddefnyddiwyd y cwestiynau graddio ar gyfer unrhyw weith dadansoddi ystadegol. [1]

2.13 Cynhaliwyd cyfweliadau ar-lein drwy ddefnyddio bwrdd gwyn rhyngweithiol wedi'i rannu (Google Jamboard) i hwyluso gweithgareddau a chwestiynau graddio. Roedd yr amserlenni cyfweld wedi'u cynllunio i gael eu defnyddio'n hyblyg yn ôl oedran a dymuniadau'r plant a pha mor gyfforddus oeddent yn siarad â'r ymchwilydd.

**Samplu**

2.14 Roedd Cynghorwyr Llys Teulu yn gymwys i gymryd rhan mewn grŵp ffocws os oedddent yn gweithio i Cafcass Cymru fel Cynghorydd Llys Teulu yn y gogledd ar y pryd, ac os oeddent wedi cael profiad o weithio ar o leiaf dri achos o dan y model Braenaru. Y nod oedd cynnal dau grŵp ffocws yr un gydag o leiaf chwe chyfranogwr yr un.

2.15 Roedd plant a phobl ifanc yn gymwys i gymryd rhan 1) os oeddent wedi cael profiad o fod yn rhan o achos cyfraith breifat a oedd wedi cael eu dwyn gan riant yn y llys teulu yn y gogledd yn ystod y 12 mis diwethaf (achosion a ddyroddwyd o 1 Mehefin 2022); 2) os oedd Cynghorydd Llys Teulu wedi siarad â nhw fel rhan o'r achos hwnnw; 3) os oeddent rhwng 5 a 16 oed ar adeg y gweithrediadau; 4) os nad oeddent yn barti yn y gweithrediadau o dan Reol 16:4 fel rhan o'u hachos[2]; a 5) os nad oeddent yn destun unrhyw weithrediadau a oedd yn mynd rhagddynt.

2.16 Er mwyn recriwtio sampl amrywiol, gwnaethom hefyd anelu at gynnwys plant ag amrywiaeth o brofiadau, gan gynnwys: (i) amrywiaeth o 'fathau' o achos e.e. y rhai sy'n cynnwys honiadau o gam-drin domestig, gwrthdaro niweidiol, a phlant sy'n gwrthod/sy'n amharod i gael cysylltiad, (ii) amrywiaeth o oedrannau (mae ymchwil flaenorol wedi nodi mai plant o dan 10 oed sydd fwyaf tebygol o fynd drwy weithrediadau ond eu bod wedi'u tangynrychioli mewn ymchwil, felly aethom ati i dargedu plant ifanc (Cusworth et al., 2021), (iii) plant a phobl ifanc roedd eu

[1] Ni ddefnyddiwyd unrhyw fesurau safonol gennym. Dim ond er mwyn ysgogi trafodaethau ansoddol pellach y defnyddiwyd y cwestiynau graddio. Cyflwynir canlyniadau'r cwestiynau graddio yn yr adran ganlynol ond nid ydynt yn addas at unrhyw waith dadansoddi meintiol/ystadegol oherwydd diffyg mesurau safonol a maint bach y sampl.
[2] Gwnaed y penderfyniad i beidio â chynnwys achosion Rheol 16:4 ar y sail bod profiad y plant hynny sy'n cael eu gwneud yn barti mewn gweithrediadau yn wahanol i'r model Braenaru o ran cymryd rhan.

hachosion wedi bod drwy'r llysoedd o'r blaen, a (iv) achosion a oedd yn cynnwys brodyr a chwiorydd.

2.17 Y brif ffrâm samplu a ddefnyddiwyd i nodi cyfranogwyr oedd cronfa ddata a ddarparwyd gan Cafcass Cymru i'r ymchwilydd, a oedd yn cynnwys gwybodaeth am achosion cyfranogwyr cymwys ac yn pennu a oedd unrhyw un o'r 'meini prawf o ddiddordeb' a restrir uchod yn berthnasol iddynt. Hefyd, gofynnwyd i gyfranogwyr y grwpiau ffocws enwebu plant i gymryd rhan a allai gyfrannu at yr astudiaeth yn eu barn nhw. Fel mae'n digwydd, dim ond un Cynghorydd Llys Teulu a awgrymodd blentyn y dylid cysylltu ag ef ym marn y Cynghorydd Llys Teulu ond roedd y plentyn hwn eisoes wedi cael gwahoddiad i gymryd rhan.

2.18 Y bwriad gwreiddiol oedd defnyddio strategaeth samplu bwriadus i nodi 'achosion â chyfoeth o wybodaeth' (Patton, 2002) y gellid dysgu ohonynt er mwyn gwneud argymhellion â ffocws ar ymarfer. Fodd bynnag, oherwydd y niferoedd bach, cysylltwyd â phob plentyn cymwys yn y pen draw i fod yn rhan o'r astudiaeth.

**Recriwtio**

2.19 Recriwtiwyd cyfranogwyr yn y grwpiau ffocws drwy wahoddiad gan arweinydd polisi'r prosiect ar ffurf e-bost. Anfonwyd gwahoddiad i fod yn rhan o grŵp ffocws ar-lein at holl Gynghorwyr Llys Teulu Cafcass Cymru (n=27) yn y gogledd. Roedd yr e-bost yn amlinellu pwy oedd yn gymwys i gymryd rhan yn yr astudiaeth ac anfonwyd taflen wybodaeth am yr astudiaeth hefyd.

2.20 Gwahoddwyd plant a phobl ifanc i fod yn rhan o gyfweliadau drwy e-bost at eu rhieni. Yn y lle cyntaf, anfonodd Cafcass Cymru e-bost yn esbonio y byddai'r astudiaeth yn mynd rhagddi at y teuluoedd a oedd yn gymwys i gymryd rhan. Roedd yr e-bost cychwynnol hwn yn cynnwys taflen wybodaeth i rieni a thaflen wybodaeth hawdd ei deall i blant. Esboniodd yr e-bost y byddai ymchwilydd yn cysylltu cyn hir a rhoddwyd y dewis i rieni beidio â chael unrhyw wybodaeth bellach am yr astudiaeth ar y cam hwn. Anfonwyd negeseuon e-bost at y rhiant roedd y plentyn yn treulio'r rhan fwyaf o'r wythnos gydag ef/hi, a lle roedd y rhieni yn rhannu'r gofal yn gyfartal, neu bron yn gyfartal, cysylltwyd â'r ddau riant i'w hysbysu am yr astudiaeth.

2.21 Wedyn, gwnaeth yr ymchwilydd a oedd yn cynnal y cyfweliadau gysylltu â'r rhieni nad oeddent wedi dewis peidio â chael eu cynnwys i ofyn a hoffai eu plentyn gymryd rhan, gan wneud galwadau ffôn dilynol lle y bo'n briodol.

2.22 Unwaith bod y rhieni a/neu'r bobl ifanc wedi cydsynio i gymryd rhan, rhoddodd Cafcass Cymru ychydig o wybodaeth gyd-destunol gryno i'r ymchwilydd am ymgysylltu â'r plentyn er mwyn i'r ymchwilydd allu cynnig cwestiynau ysgogi i helpu'r plant i gofio gyda phwy roeddent wedi siarad, a sut. Roedd y wybodaeth gyd-destunol yn cynnwys: gyda pha Gynghorydd Llys Teulu roedd y plentyn wedi cyfarfod, sawl gwaith roedd wedi siarad â Cafcass Cymru a natur yr ymgysylltu (e.e. dros y ffôn, wyneb yn wyneb ac ati).

2.23 Recriwtiwyd y plant a'r bobl ifanc ar ddau gam er mwyn sicrhau sampl amrywiol. Cysylltwyd â hanner y sampl gymwys ar y cam cyntaf a'r hanner arall ar yr ail gam.

2.24 Roedd 47 o blant i gyd, o 38 o deuluoedd, yn gymwys i gael eu cynnwys yn yr astudiaeth ac fe'u gwahoddwyd i gymryd rhan. Ein targed ar gyfer recriwtio oedd 20 o blant a phobl ifanc. O'r rhai a gafodd wahoddiad, nid ymatebodd 26, gwrthododd naw gymryd rhan, a chytunodd 1 i gymryd rhan ond ni ddaeth i'r cyfweliad, a chymerodd 11 ran.

**Casglu data**

*Cronoleg o gasglu data*

2.25 Cafodd y broses o gasglu data ei strwythuro'n ddau gam. Cynhaliwyd grwpiau ffocws â Chynghorwyr Llys Teulu ym mis Mehefin 2023, ac wedyn gyfweliadau â'r plant a'r bobl ifanc rhwng mis Gorffennaf a mis Medi 2023.

2.26 Roedd dau reswm dros ddull fesul cam o'r fath. Yn gyntaf, roedd yn golygu y gallai'r grwpiau ffocws lywio'r gwaith o ddatblygu'r amserlenni cyfweld i'r plant yn yr ystyr ein bod yn gallu dysgu mwy am gyd-destun cyflwyno'r model Braenaru a'r hyn a oedd yn digwydd yn ymarferol. Yn ail, fel y'i trafodir ym mharagraff 2.19, gofynnwyd i'r cyfranogwyr yn y grwpiau ffocws enwebu'r plant a'r bobl ifanc a fyddent yn fodlon, yn eu barn nhw, rannu eu barn ar gymryd rhan i gael gwahoddiad i fod yn rhan o'r cyfweliadau.

*Grwpiau ffocws*

2.27 Cynhaliwyd dau grŵp ffocws awr o hyd drwy Microsoft Teams gyda chyfanswm o 10 o Gynghorwyr Llys Teulu. Ceir rhagor o fanylion am y sampl yn y bennod nesaf (gweler paragraff 4.1).

2.28 Ystyriodd cwestiynau'r grwpiau ffocws sut roedd y Cynghorwyr Llys Teulu yn teimlo bod y model Braenaru yn dylanwadu ar gyfranogiad plant mewn gweithrediadau preifat, gyda ffocws arbennig ar enghreifftiau penodol o ymarfer.

2.29 Cafodd trafodaethau'r grwpiau ffocws eu recordio, gyda chaniatâd y cyfranogwyr, a'u trawsgrifio'n ddienw.

*Cyfweliadau*

2.30 Cynhaliwyd 10 cyfweliad lled-strwythuredig â 11 o blant a phobl ifanc drwy Microsoft Teams. Gwnaeth y rhan fwyaf o'r plant a'r bobl ifanc gymryd rhan yn unigol, ond dewisodd un grŵp o frodyr/chwiorydd gael ei gyfweld gyda'i gilydd.

2.31 Roedd y plant a'r bobl ifanc a gymerodd ran rhwng wyth a 17 oed. Ceir rhagor o fanylion am y sampl yn y bennod nesaf (gweler paragraff 3.3).

2.32 Cafodd y plant y dewis o gael rhiant gyda nhw yn ystod y cyfweliad. Dewisodd chwech gymryd rhan ar eu pen eu hunain a dewisodd pump i gael rhiant gyda nhw.

2.33 Lle roedd rhiant y plant yn bresennol, gwnaeth y rhiant gyfrannu at y cyfweliad weithiau. Er nad oeddem yn bwriadu casglu safbwyntiau rhieni, rydym wedi cynnwys eu sylwadau lle roedd y cyfraniadau yn berthnasol i'r cwestiwn ymchwil. Nodir yn glir mai safbwyntiau rhieni yw'r rhain.

2.34 Roedd pob cyfweliad wedi cael ei gynnal yn Saesneg. Cafodd y rhai a gymerodd ran wybod bod modd dewis cael cyfweliad yn Gymraeg neu yn Saesneg cyn cymryd rhan.

2.35 Roedd y cyfweliadau yn para rhwng 13 a 39 munud, gyda'r cyfweliadau yn para 25 munud ar gyfartaledd.

2.36 Rhoddwyd e-daleb i bob plentyn a pherson ifanc a gyfranogodd i ddiolch iddynt am gymryd rhan yn yr astudiaeth.

2.37 Cafodd y cyfweliadau eu recordio, gyda chaniatâd y rhai a gymerodd ran, a'u trawsgrifio'n ddienw.

### Dadansoddi data

2.38 Dadansoddwyd y data o'r grwpiau ffocws a'r cyfweliadau drwy ddefnyddio dadansoddi thematig anwythol.

2.39 Dull o nodi, dadansoddi, a chofnodi patrymau (themâu) o fewn data yw dadansoddi thematig (Braun a Clarke, 2006). Mae'n hyblyg, yn epistemolegol ac yn ddamcaniaethol (Esterberg, 2002), gan arwain at ddisgrifiadau cyfoethog, manwl a chymhleth o ddata ansoddol (King 2004). Mae'n addas iawn ar gyfer astudiaethau fel hon sydd â'r nod o allosod dirnadaethau cyffredinol y gellir gweithredu arnynt o ddisgrifiadau unigol o brofiadau (Binhgam, 2022).

2.40 Wrth ddefnyddio dulliau dadansoddi thematig anwythol, mae ymchwilwyr yn mabwysiadu dull ‘o'r gwaelod i fyny’ o ymdrin â'r data (Bingham, 2023). Yn hytrach na dechrau gyda chyfres o gysyniadau damcaniaethol penodol neu fframwaith sy'n bodoli eisoes a gymhwysir at y data, daw codau o'r data eu hunain (Charmaz, 2014).

2.41 Dull anwythol oedd y dull mwyaf priodol yma oherwydd natur archwiliadol yr astudiaeth. Mae'r ffaith bod y gwaith dadansoddi wedi'i lywio gan ddata, yn hytrach na damcaniaethu, yn golygu bod cysylltiad agos rhwng y canfyddiadau a disgrifiad y rhai a gymerodd ran o'u profiad bywyd.

2.42 Dadansoddwyd y trawsgrifiadau dienw o'r grwpiau ffocws a'r cyfweliadau yn ôl themâu. Mewn llawer o astudiaethau ansoddol, byddai data yn cael eu codio gan fwy nag un ymchwilydd ond oherwydd graddfa fach y prosiect hwn, dim ond un ymchwilydd a ymgymerodd â'r gwaith codio.

2.43 Gan ddefnyddio dull chwe cham Braun a Clarke o ymgymryd â dadansoddi thematig (2006), gwnaeth yr ymchwilydd: i) ymgyfarwyddo â'r data drwy ddarllen ac ailddarllen y trawsgrifiadau; ii) cymhwyso codau rhagarweiniol at y segmentau hynny o'r data a oedd yn ystyrlon ac yn berthnasol i'r cwestiwn ymchwil; iii) creu themâu deongliadol cyffredin a oedd yn clymu'r codau hyn ynghyd; iv) adolygu'r themâu a'r cydberthnasau rhyngddynt; v) diffinio ac enwi'r themâu hyn; a vi) strwythuro'r canfyddiadau yn adroddiad terfynol (Braun a Clarke, 2006). Mae'r fframwaith codio a ddatblygwyd yn anwythol drwy'r broses hon yn atodiad D.

2.44 Yn ogystal â'r broses a amlinellir uchod, ysgrifennodd yr ymchwilydd femoranda myfyriol ar gyfer pob cyfweliad/grŵp ffocws er mwyn cofnodi'r dirnadaethau a oedd yn datblygu a chreu syniadau cychwynnol ar gyfer themâu.

2.45 Er bod yr un prosesau dadansoddi wedi cael eu cynnal ar gyfer y grwpiau ffocws a'r cyfweliadau, cafodd y data eu dadansoddi ar wahân er mwyn cadw safbwyntiau'r plant.

2.46 Cyflwynir canfyddiadau'r grwpiau ffocws a'r cyfweliadau ar wahân yn y penodau canlynol, cyn dwyn ynghyd y ddwy ffynhonnell yn yr adran ar y casgliadau, ochr yn ochr ag argymhellion sy'n seiliedig ar safbwyntiau'r Cynghorwyr Llys Teulu a'r plant a'r bobl ifanc.

**Moeseg**

2.47 Cwblhawyd rhestr wirio foesegol ar gyfer Ymchwil Gymdeithasol y Llywodraeth ar ddechrau'r astudiaeth, a gafodd eu hadolygu gan uwch-aelodau o'r tîm a'u rhannu â Cafcass Cymru. Ychwanegwyd unrhyw risgiau moesegol newydd a gododd wrth i'r prosiect fynd heibio at y rhestr wirio hon i'w chadw'n gyfredol.

2.48 Rhoddodd Cynghorwyr Llys Teulu gysyniad ar sail gwybodaeth ar lafar i gymryd rhan yn y grŵp ffocws.

2.49 Roedd angen i riant/gofalwr plant a phobl ifanc o dan 16 oed roi cydsyniad ar sail gwybodaeth ar eu rhan. Rhoddwyd taflen wybodaeth i'r teuluoedd cyn y cyfweliad a chawsant gyfle i ofyn cwestiynau cyn cytuno i gymryd rhan. Yna, gofynnwyd i'r rhieni lofnod ffurflen gydsynio cyn i'r cyfweliad fynd rhagddo. Roedd pobl ifanc 16 oed ac yn hŷn yn gallu llofnodi'r ffurflen gydsynio hon eu hunain.

2.50 Roedd negeseuon e-bost at bawb a oedd yn cymryd rhan yn cynnwys hysbysiad preifatrwydd yn esbonio pa ddata personol a gâi eu casglu, sut y byddent yn cael eu defnyddio ac am faint o amser y byddent yn cael eu cadw.

## 3. Canfyddiadau: cyfweliadau â'r plant

3.1 Mae'r adran hon yn cyflwyno canfyddiadau'r cyfweliadau â'r plant a'r bobl ifanc (n=11). Rhoddwyd ffugenw i bawb a gymerodd ran.

3.2 Mae themâu wedi'u strwythuro o dan dri phennawd: 'cael gwybodaeth', 'teimlo eu bod yn cael eu cefnogi', a 'teimlo bod eraill yn gwrando arnynt' yn unol â model aml-lefel Shier (2006) ar gyfranogiad ieuenctid (Shier, 2006). Rhoddir ychydig o adborth cyffredinol ar ddechrau pob un o'r adrannau hyn, ac yna ddisgrifiad manylach o'r themâu mwyaf sylweddol.

**Disgrifiad o'r sampl gyfweld**

3.3 Roedd y plant a gyfwelwyd yn amrywio o wyth oed i 17 oed. Yr oedran canolrifol oedd 12 oed. Roedd 6% neu saith o'r plant yn y sampl yn fechgyn. Roedd dau grŵp o frodyr/chwiorydd wedi'u cynnwys yn y sampl. Ceir manylion llawn am y sampl yn atodiad B.

3.4 Roedd tri o'r rhai a gymerodd ran wedi bod yn destun gweithrediadau blaenorol yn y llys teulu. Roedd yr achosion wedi para rhwng chwe wythnos a 39 wythnos, o dderbyn y cais i'r llys ar y cychwyn i gau'r achos. Roedd yr achosion wedi para 17 wythnos ar gyfartaledd. Roedd yr 11 o blant yn rhan o wyth achos. Roedd rhai ceisiadau am sawl math o orchymyn: roedd chwe chais yn ymwneud â Gorchymyn Trefniadau Plentyn, gan gynnwys un cais i newid y gorchymyn, ac un i orfodi'r gorchymyn. Roedd dau yn ymwneud â Gorchmynion Camau Gwaharddedig ac roedd dau yn ymwneud â Gorchymyn Materion Penodol. Mewn tri chais (a/neu ymatebion) nid oedd unrhyw bryderon ynglŷn â niwed. Mewn pedwar achos, codwyd pryder ynglŷn â mwy nag un math o niwed. Mewn pum achos, codwyd pryderon ynghylch cam-drin plentyn gan un parti neu'r ddau barti, mewn tri achos, codwyd pryderon ynglŷn â cham-drin domestig, mewn dau achos, codwyd pryderon ynglŷn â herwgipio plentyn ac mewn un achos codwyd pryderon ynglŷn â chamddefnyddio sylweddau.

3.5 Roedd yr 11 o gyfweliadau â'r plant yn ymwneud â chyfarfodydd â saith Cynghorydd Llys Teulu gwahanol ac roedd saith o'r rhai a gymerodd ran wedi cyfarfod â Cafcass Cymru wyneb yn wyneb. O'r cyfarfodydd hyn, roedd tri yn yr

ysgol ac roedd pedwar yn y swyddfa. O'r rhai a gyfarfu drwy ddulliau rhithwir, roedd tri dros y ffôn ac roedd un drwy alwad fideo.

3.6 Dywedodd y rhan fwyaf o'r plant fod eu Cynghorydd Llys Teulu wedi ymgysylltu â nhw drwy siarad yn hytrach na gweithgareddau. Dim ond un plentyn a nododd ei fod wedi ymgymryd â gweithgarwch, a ddisgrifiwyd mewn ffordd gadarnhaol ganddo. Dywedodd plentyn arall fod y Cynghorydd Llys Teulu wedi paratoi gweithgarwch ond “Fe ddechreues i siarad yn syth felly fe ddywedon nhw fod dim angen i ni ei ddefnyddio” (Theo, 11).

**Yn teimlo bod eraill yn gwrando arnynt**

3.7 Arweiniodd y gwaith dadansoddi at greu tair thema a oedd yn berthnasol i deimlo bod eraill yn gwrando arnynt: ‘Mae cyfleu eich cwyn yn rhyddhad’, ‘Mae dweud wrth rywun sy'n gallu newid pethau yn eich grymuso’, ac ‘mae teimlo bod eraill yn gwrando arnoch chi yn hollbwysig i ennyn ymddiriedaeth ym mhroses y llys’.

*‘Mae cyfleu eich cwyn yn rhyddhad’*

3.8 Cydnabuwyd yn y cyfweliadau bod sefyllfa'r plant pan fyddant yn siarad â Cafcass Cymru yn un anodd ac anghyfforddus yn ei hanfod, ac mai dim ond hyn a hyn y gellir ei wneud i liniaru'r teimladau hyn. Esboniodd Dylan (12) er ei fod wedi cael profiad cadarnhaol, ei bod yn dal yn anodd i siarad am ei berthynas â'i dad: “roedden nhw'n gwrando a doedden nhw ddim yn barnu, dim ond gwrando ond ar yr un pryd roedd sôn am bethau a oedd wedi digwydd a pham doeddwn i ddim eisiau gwneud pethau a bod rhaid i chi sôn am hynny yn anodd .”

3.9 Er gwaethaf hyn, roedd y plant yn teimlo ar y cyfan bod eu Cynghorwyr Llys Teulu yn dda iawn o ran gwrando ar eu safbwyntiau. Rhoddodd y plant ddisgrifiadau manwl o sut roeddent yn gwybod bod eraill yn gwrando arnynt. Roedd hyn yn cynnwys y canlynol:

- Peidio â thorri ar draws, rhuthro na siarad ar draws plant:

  “Roedden nhw'n neis iawn a ddim yn siarad ar fy nhraws ac ati ac yn rhoi cyfle i ddweud beth oeddwn i eisiau ei ddweud.” (Ria, 14)

  “Os bydden ni'n trafod rhyw bwnc, fydden nhw ddim yn troi'r sgwrs yn syth er mwyn cael gwybod beth bynnag roedden nhw'n ceisio ei wybod". (Matt, 16)

- Gan fyfyrio ar hyn a ddywedwyd:

  “Felly, bob tro roeddwn i'n siarad, roedden nhw'n edrych arna i ac yn deall popeth roeddwn i'n ei ddweud. Roedd beth ddywedon nhw wedyn yn gwneud i fi deimlo eu bod yn deall beth ddywedes i.” (Jay, 8)

  “Dim ond am eu bod wir wedi gwrando'n dda. Wel, roedden nhw'n cydnabod beth ddywedes i a bob amser yn ymateb.” (Archie, 11)

  “Bydden nhw'n ymateb drwy ofyn cwestiwn am beth oeddwn i'n ei ddweud. Ac yna'n amlwg roedden nhw'n dweud pethau am beth roeddwn i'n ei ddweud felly roeddwn i'n gwybod eu bod yn gwrando.” (Dylan, 12)

- Cadw cyswllt llygaid yn gyfforddus: “Doedd eu sylw ddim ar bethau eraill ond roedden nhw'n gwneud yn siŵr na fydden nhw'n rhythu arna i”. (Jay, 8)

- Peidio â barnu: “Ddywedon nhw ddim, “Wel, dyw hynny ddim yn iawn neu mae hynny'n iawn” o gwbl, dim ond aros i mi orffen .” (Harry, 9)

3.10 Lle roedd y rhai a gymerodd ran yn teimlo bod eraill yn eu deall, roedd y cyfle i siarad â rhywun am beth oedd yn digwydd hefyd yn cael ei ddisgrifio fel rhyddhad ac yn ffordd o ‘ddweud fy nghŵyn’:

“Roedd gen i lawer yn fy mhen cyn hynny ac felly roeddwn i hefyd yn hapus i gael cyfle i ddweud beth oedddwn i ei eisiau. Rhyddhad. Roedd yn beth da oherwydd roedd fel petai'n ffordd ychwanegol o wneud yn siŵr ein bod yn iawn.” (Eloise, 11)

“Roedd fel petai'r pwysau wedi cael eu codi oddi arna i am fy mod i wedi bod yn dweud y pethau hyn ers amser maith.” (Theo, 11)

“Roedd yn beth eithaf cyffrous i mi gael dweud beth oeddwn i eisiau ei ddweud. A hefyd wedyn roeddwn i'n hapus i gael dweud pa mor dda yw byw gyda mam.” (Harry, 9)

3.11 Mae'r dyfyniadau hyn yn dangos rhai o effeithiau emosiynol cadarnhaol cymryd rhan. Yn unol â'r rhain, dywedodd y rhan fwyaf o'r plant yn y sampl eu bod yn falch eu bod wedi cael cyfle i siarad â Cafcass Cymru.

3.12 Mae'n bosibl bod cael rhywun i wrando yn lleihau'r straen a'r pwysau y mae plant yn eu teimlo pan fydd rhieni'n gwahanu. Dyma un o'r ffyrdd roedd Cynghorwyr Llys

Teulu yn teimlo bod y model Braenaru yn cefnogi teuluoedd a thrafodir hyn ymhellach yn yr adran ganlynol.

*‘Mae dweud wrth rywun sy'n gallu newid pethau yn eich grymuso’*

3.13 Esboniodd un plentyn, a gymerodd ran yn y cyfweliad gyda rhiant, iddo fod yn brofiad cadarnhaol iddo ddweud wrth berson newydd a allai ddylanwadu ar newid ynglŷn â'r hyn roedd yn ei ddymuno, yn ei farn ef: “Roeddwn yn hapus fy mod wedi dweud wrth rywun heblaw mam am fod mam yn gwybod erioed sut mae [dad] yn ymddwyn ond roedd dweud wrth rywun gwahanol yn well. A gallai wneud gwahaniaeth hefyd” (Theo, 11).

3.14 Pwysleisiodd ei fam, a oedd gydag ef yn ystod y cyfweliad, yr ymdeimlad hwn o obaith: “roedd yn gwybod bod rhywun yn mynd i wrando, bod rhywun heblaw fi, oedd ddim yn gallu newid dim byd mewn gwirionedd, yn mynd i wrando.” Aeth yn ei blaen i ddisgrifio'r gwahaniaeth roedd y cyfle i ddweud ei ddweud wedi ei wneud i'w mab: “roedd yr adroddiad mor gynhwysfawr a doeddwn i ddim yn meddwl heb yr adroddiad a'r ffordd y maen nhw wedi ei gefnogi, y byddwn yn y sefyllfa bresennol am ei bod wedi newid ein bywydau mewn gwirionedd. Mae wedi cael effaith enfawr arnon ni mewn gwirionedd. Roedd yn fyr ond cafodd gymaint o effaith.” (Mam Theo)

3.15 Esboniodd person ifanc arall, er mai cymysg oedd ei phrofiad o siarad â Cafcass Cymru, ei bod am ddweud ei dweud a manteisio ar y cyfle i sicrhau trefniant a fyddai'n gweithio'n well iddi na'r gorchymyn llys presennol. Esboniodd “Mae'n gyfle i newid pethau, i ddweud beth rydych chi ei eisiau a sicrhau beth rydych am iddo ddigwydd yn hytrach na beth sydd wedi cael ei wneud ers pan oeddech yn ifanc” (Ella, 13).

*Mae teimlo bod eraill yn gwrando yn hollbwysig o ran ennyn ymddiriedaeth ym mhroses y llys*

3.16 Dywedodd sawl un a gymerodd ran eu bod yn teimlo'n hyderus ar ôl cyfarfod â Cafcass Cymru bod eu Cynghorydd Llys Teulu yn deall eu safbwyntiau ac y gellid ymddiried ynddo/ynddi i'w cynrychioli'n gywir.

> “Ar ôl hynny roeddwn i'n teimlo'n hapus eu bod wedi bod o gymorth. Roeddwn yn gwybod bryd hynny, pan aeth yr achos i'r llys, y bydden nhw'n dweud beth oedd y sefyllfa, sut roeddwn i'n teimlo beth fyddai orau yn eu barn nhw, ac ati.” (Theo, 11)

> “Roeddwn i'n teimlo y gallwn ymddiried ynddyn nhw i ddweud beth roeddwn i eisiau digwydd pan nad oeddwn i yno.” (Ria, 14)

3.17 Roedd eu gallu i ymddiried yn eu Cynghorydd Llys Teulu yn bwysig am nad oedd yr un o'r plant yn y sampl hon wedi dewis mynd i'r llys na mynegi eu dymuniadau na'u teimladau drwy unrhyw ddull arall.

3.18 Roedd un ferch wedi cael profiad gwael o ran teimlo bod eraill yn gwrando arni. Teimlai Ella nad oedd y Cynghorydd Llys Teulu yn deall beth ddywedodd hi a'i fod wedi'i ‘droi’. Disgrifiodd sut y gwnaeth hyn iddi boeni mwy am y gweithrediadau a theimlo mwy o ansicrwydd ynglŷn â phenderfyniad y llys.

> “Roeddwn i'n teimlo eu bod yn troi popeth roeddwn i'n ei ddweud ac yn gwneud i mi feddwl y dylwn i ddweud hyn yn lle'r hyn roeddwn i'n ei ddweud mewn gwirionedd. Y rhan fwyaf o'r amser, doeddwn i ddim hyd yn oed wedi gorffen siarad a bydden nhw'n ailadrodd beth ddywedes i'n syth hefyd ac roedden nhw'n cael y peth yn anghywir o hyd. Ac yna ar ôl i mi roi fy ateb olaf dywedon nhw “o'r gorau, diolch” a gorffen yr alwad. Ac roeddwn i'n meddwl wel, “beth os nad oeddech wedi deall beth ddywedes i ar y diwedd?” Ches i ddim cyfle i ddweud, “nid dyna beth ddywedes i. Fe ddywedes i hyn. Dyna beth hoffwn ei weld,” a, beth os wnaethon nhw gamddeall?” a beth os dywedon nhw y peth anghywir ac yna mae rhywbeth nad wyf ei eisiau yn digwydd?” (Ella, 13)

3.19 Yn y pen draw, Ella oedd un o'r ychydig blant a gymerodd ran yr astudiaeth a oedd ychydig yn siomedig gyda chanlyniad y gweithrediadau: “Roedd hanner y peth yn hollol iawn ganddyn nhw ond roedd darnau bach yn anghywir ac roeddwn i'n teimlo, nid dyna beth ddywedes i mewn gwirionedd. Dyw'r amseroedd ddim yn gweithio i mi, a dweud y gwir. Mae'n iawn ond dw i ddim yn gwybod. Mae'n anodd gweld fy ffrindiau. Roeddwn i eisiau gallu newid fy niwrnodau.” (Ella, 13)

3.20 Mae dyfyniadau Ella yn dangos pa mor bwysig yw sgiliau gwrando o ran osgoi sefyllfa lle mae plant a phobl ifanc yn teimlo diffyg rheolaeth dros y wybodaeth y maent yn ei rhannu â Cafcass Cymru. Nododd plentyn arall yr un ofnau “hyd yn oed os na fydda i byth yn eu gweld nhw eto, rwy'n teimlo'n anghyfforddus bod pobl yn gwybod sut rwy'n teimlo. Dw i ddim yn ei hoffi o gwbl”. (Matt, 16)

3.21 Mewn sefyllfaoedd lle mae rhieni yn anghyd-weld, gall plant a phobl ifanc deimlo dryswch ynghylch pwy y dylent ymddiried ynddo, felly mae ennyn ymddiriedaeth yn y broses ac yn eu Cynghorydd Llys Teulu yn hollbwysig. Trafodir hyn yn fanylach yn yr adran ganlynol.

### Cael gwybodaeth

3.22 Yn yr adran hon rydym yn nodi tair thema sy'n ymwneud â ‘cael gwybodaeth’. Mae hyn yn cyfeirio at gael gwybod am gyfarfod â Cafcass Cymru, a'r gallu i wneud dewisiadau am y cyfarfod ar sail gwybodaeth, yn ogystal â chael gwybod am ganlyniad gweithrediadau'r llys.

*Deall y darlun mawr ond teimlo dryswch ar y pryd*

3.23 Nid oedd yr un o'r plant a gyfwelwyd wedi clywed am Cafcass Cymru cyn y gweithrediadau (oni bai eu bod wedi mynd drwy'r llys teulu yn flaenorol) ac ni wnaeth yr un ohonynt sôn am unrhyw ffynonellau penodol o wybodaeth a oedd wedi cael eu dangos iddynt cyn y cyfarfod, heblaw am gael gwybod beth fyddai'r cyfarfod â Cafcass Cymru yn ei olygu – gwybodaeth a oedd yn amrywio o ran manylder – gan riant.

3.24 Pan ofynnwyd iddynt, gallai'r rhan fwyaf o'r plant ddisgrifio rôl Cafcass Cymru a rôl barnwyr y llys teulu yn eu geiriau eu hunain. Roedd ganddynt ddealltwriaeth eithaf clir mai rôl y barnwr oedd “penderfynu beth sy'n digwydd” (Jay, 8) a bod Cafcass Cymru “yn helpu plant i feddwl am beth maen nhw ei eisiau a gofyn cwestiynau am hynny” (Theo, 11). Roedd plant eraill yn deall rôl Cafcass Cymru fel “helpu teuluoedd os oeddent yn cael trafferth gydag unrhyw beth” (Dylan, 12) neu'n fwy amhenodol “bod yno i ofyn cwestiynau i mi” (Archie, 11)

3.25 Fodd bynnag, nid oedd dealltwriaeth o'r gwahanol rolau yn y llys teulu o reidrwydd yn golygu eu bod yn deall beth oedd yn digwydd wrth gyfarfod ag un o Gynghorwyr Llys Teulu Cafcass Cymru. Dywedodd saith o'r plant eu bod yn teimlo dryswch ynghylch pam roeddent yn cyfarfod â Cafcass Cymru.

3.26 Dywedodd plant iau a phlant hŷn yn eu harddegau eu bod yn teimlo dryswch ond mewn ffyrdd gwahanol. O ran y plant yn eu harddegau, roedd rhywfaint o'r dryswch yn ymwneud â pham roedd gofyn iddynt fynegi eu safbwyntiau ynglŷn â beth roeddent am ddigwydd, pan oeddent yn teimlo eu bod yn ddigon hen i wneud eu penderfyniadau eu hunain:

"Rwy'n credu fy mod i'n 15 oed ar y pryd neu newydd gael fy mhen-blwydd yn 16 oed. Felly, roeddwn yn nesáu ar adeg pan fyddwn i'n gallu gwneud fy mhenderfyniadau fy hun ynglŷn â phethau sut bynnag, felly dw i ddim yn gweld diben i mi fynd. Felly, roedd yn rhaid i ni esbonio i'r llys nad oedd rhaid i ni fynd at ein tadau. Ond roeddwn i'n meddwl beth yw'r pwynt mewn gwirionedd, dw i ddim yn gwybod. Roeddwn i'n teimlo fy mod i'n gwneud rhywbeth er mwyn ei wneud. (Serena, 16)

"Fe ofynnodd fy mam i mi cyn hynny a oeddwn am wneud hynny ac roeddwn i'n teimlo, rydych yn gwybod fy mod i wedi dweud na bob tro. Does dim ots gen i ragor am fy mod i'n ddigon hen i wneud beth hoffwn ei wneud. Ac roeddwn i'n dal i deimlo fel hynny y tro hwn. Roeddwn i'n teimlo, pam fy mod i'n gwneud hyn?" (Matt, 16)

3.27 Ond ymhlith plant o wahanol oedrannau, cafwyd dryswch hefyd ynglŷn â phwy oedd Cafcass Cymru a pham roeddent yn cyfarfod â nhw:

"Roeddwn i wedi drysu. Beth oedden ni'n ei wneud? Ie, pam rydyn ni ym?" (Archie, 11)

"Doeddwn i wir ddim yn gwybod pam roedden nhw yno, a dweud y gwir, a dwi'n dal ddim yn gwybod a oedden nhw yno am fod fy mam a fy nhad yn ffraeo neu i wybod a oeddwn yn aros gyda fy mam neu fy nhad, dw i ddim yn cael gwybod llawer felly rwy'n gorfod dyfalu am y rhan fwyaf o'r pethau rwy'n mynd iddyn nhw". (Matt, 16)

3.28 O ran y plant ieuangaf yn y sampl, ymddangosai fel petai'r dryswch hwn yn mynd yn waeth os mai dim ond ar fyr rybudd y byddent yn cael gwybod bod rhywun yn mynd

i siarad â nhw. Yn achos dau blentyn a oedd yn 7 ac yn 9 oed pan wnaethant siarad â'u Cynghorydd Llys Teulu, dim ond ar fore'r cyfarfod y dywedwyd wrthym y byddent yn siarad â Cafcass Cymru am fod eu rhieni yn teimlo mai dyna'r ffordd orau o osgoi achosi pryder iddynt.

“Fe ddywedodd yr athro wrtha i fod rhywun yma i fy ngweld i ac yna fe es i mewn i'r swyddfa ac roeddwn i'n synnu ac yn drysu braidd ac yn *[yn dynwared The Rock yn codi un o'i aeliau]* …ddrwgdybus.” (Harry, 9)

“Roeddwn i'n teimlo syndod llwyr a doedd dim syniad gen i beth oedd yn digwydd. Ym, roeddwn i'n eithaf nerfus ac wedi cyffroi ychydig bach hefyd. Dim ond i weld pa bethau newydd y byddwn i'n eu gweld pan fyddwn i'n mynd i mewn.” (Jay, 8)

3.29 Mae'n bosibl bod sawl ffactor yn gyfrifol am yr anghysondeb rhwng gallu plant i ddisgrifio rôl Cafcass Cymru a barnwyr yn glir, ond eto teimlo dryswch ar y pryd. Un ffactor posibl, yn syml, yw bod y cyd-destun ehangach y mae plant yn ei wynebu pan fydd eu rhieni yn gwahanu yn achosi cryn ddryswch ac annifyrrwch. Ffactor posibl arall yw bod plant a phobl ifanc yn deall yn well o edrych yn ôl, unwaith y bydd penderfyniad wedi'i wneud a bod yr achos wedi'i ddatrys, beth roedd Cafcass Cymru yn ei wneud nag oeddent ar y pryd.

3.30 Roedd y graddau roedd y plant yn teimlo bod y cyfarfod â Cafcass Cymru wedi eu helpu i deimlo'n fwy gwybodus a llai dryslyd yn amrywio. I rai ohonynt, roedd siarad â'r Cynghorydd Llys Teulu wedi eu helpu i ddeall beth oedd yn digwydd yn y teulu: “Felly, rwy'n meddwl bod gen i ddealltwriaeth dda iawn ar ôl i ni siarad â nhw. Roedd yn hawdd iawn deall popeth ar ôl y sgwrs honno â Cafcass.” (Eloise, 11)

3.31 Dywedodd plant a oedd eisoes wedi mynd drwy'r broses eu bod yn deall beth oedd yn digwydd am eu bod wedi bod drwy'r profiad o'r blaen neu am fod eu rhieni wedi esbonio pethau'n dda iddynt: “mae'n braf cael siarad â rhywun am beth sy'n digwydd, ond doedd gen i ddim llawer i'w ddweud nac i'w ateb mewn gwirionedd a bod yn deg, wyddoch chi, am fy mod i'n deall y peth yn dda sut bynnag.” (Danny, 17)

3.32 I eraill, nid oedd dryswch ynghylch beth oedd yn digwydd yn eu teulu na beth fyddai'n digwydd nesaf wedi cael ei ddatrys o reidrwydd drwy siarad â'r Cynghorydd

Llys Teulu. Esboniodd un o'r plant: “Ac ar ôl dal i deimlo “beth rydyn ni'n ei wneud?” Roeddwn i wedi drysu ynglŷn â pham y cawson ni'r sgwrs honno, dyna i gyd”. (Archie, 11). Dywedodd un arall ei fod am gael mwy o esboniad am beth oedd yn digwydd yn y cartref:

> “Roeddwn i eisiau gofyn ychydig mwy o gwestiynau a fyddai'n gwneud i mi ddeall pethau hyd yn oed yn well nag oeddwn i ar y diwedd. [*Felly, o ran cwestiynau, wyt ti'n golygu y gallai fod wedi rhoi ychydig mwy o esboniad am beth oedd y sefyllfa yn eich teulu?*] Ydw. *[Wnest ti adael yn teimlo dy fod ti'n dal i deimlo ychydig o ddryswch ynglŷn â beth sy'n digwydd?]* Do. *[A beth oedd yn achosi dryswch o'r fath?]* Dim ond fy mod i ddim yn gwybod beth sy'n digwydd. Roeddwn i'n teimlo fy mod wedi drysu braidd. *[A wnaeth esbonio pethau i chi? A wnaeth dy helpu di i deimlo llai o ddryswch?]* Dim hyd y cofia i.” (Jay, 8)

*Ansicrwydd a disgwyliadau aneglur*

3.33 Hyd yn oed lle roedd y plant yn ymwybodol o'r hyn a oedd yn digwydd a pham roedd y Cynghorydd Llys Teulu yno i siarad â nhw, disgrifiodd y plant deimladau o ansicrwydd ynglŷn â'r cyfarfod. Dywedodd un plentyn “Doeddwn i ddim yn gwybod beth i'w ddisgwyl am fy mod i erioed wedi gwneud hyn o'r blaen”. (Ria, 14). Roedd plentyn arall yn gwahaniaethu rhwng peidio â gwybod beth i'w ddisgwyl a theimlo'n ofnus: “Doeddwn i ddim yn teimlo braw na dim byd. Roeddwn i'n teimlo ychydig yn swil ar y dechrau. Doeddwn i ddim yn gwybod beth i'w ddisgwyl.” (Theo, 11)

3.34 Er eu bod yn gwybod y byddent yn cael eu holi, soniodd rhai plant am beidio â gwybod pa fath o gwestiynau a fyddai'n cael eu gofyn a theimlo'n bryderus am hyn: “Roeddwn i'n meddwl pa fath o gwestiynau fydd yn cael eu gofyn, achos roeddwn i'n naw oed. Ar fin cael fy mhen-blwydd yn 10. Doeddwn i ddim yn gwybod beth oedd yn mynd i ddigwydd. Ond wedyn roeddwn i'n teimlo rhyddhad am nad oedden nhw'n ceisio fy nghael i ddweud unrhyw beth drwg. Rwyf bob amser … yn ceisio plesio pobl. Ond dim ond ceisio cael ein barn a phethau felly roedden nhw.” (Eloise, 11)

3.35 Roedd ofnau Eloise ynghylch cael ei gorfodi ‘i ddweud pethau drwg’ hefyd yn cael eu crybwyll gan Jay, a ddywedodd ei fod wedi teimlo rhyddhad unwaith bod y

broses wedi dechrau “doedd hi ddim yn gofyn gormod o gwestiynau i wneud i mi deimlo fel ‘Wir ddim yn meddwl y dylech ofyn hynny i mi’ [*fel beth?]* Ym, cwestiynau fel ‘Ym, sut rwyt ti'n ymdopi â hyn a phethau felly’” (Jay, 8). Mae hyn yn awgrymu bod Eloise a Jay ill dau yn poeni am gael cwestiynau a fyddai naill ai'n eu cynhyrfu wrth ateb am eu bod yn teimlo eu bod yn rhy bersonol neu'n poeni am orfod mynegi barn a allai beri gofid i'w rhieni.

3.36 Roedd un person ifanc yn poeni llai am y cwestiynau a fyddai'n cael eu gofyn a mwy am beidio â gwybod dim am y person y byddai'n siarad ag ef/hi: “Roeddwn i'n teimlo ychydig yn nerfus oherwydd, wyddoch chi, doeddwn i erioed wedi gweld y person yma o'r blaen, ddim yn gwybod dim byd amdanyn nhw, byth wedi siarad â nhw na dim byd ac yna fe ges i'r alwad ffôn yma ac roeddwn i'n gorfod siarad am bopeth. Doedd dim ots gen i pan ddigwyddodd y peth, ond cyn hynny roeddwn i ychydig yn nerfus”. Pan ofynnwyd a fyddai mwy o wybodaeth am y Cynghorydd Llys Teulu roedd yn mynd i siarad ag ef/hi wedi bod o gymorth, dywedodd Ella: “Rwy'n credu y byddwn i wedi bod dipyn yn hapusach siarad â nhw pe bawn i wedi cael rhywbeth ganddyn nhw [ac] yn gwybod ychydig yn fwy amdanyn nhw. Dw i ddim yn un o'r bobl hynny sy'n gallu jest siarad â rhywun, wyddoch chi, a dweud popeth. Felly, rwy'n credu y byddai wedi helpu, byddwn i wedi ei darllen” (Ella, 13).

3.37 Disgrifiodd person ifanc arall ei amheuon cyn cyfarfod â Cafcass Cymru am ei fod wedi cael profiad negyddol o'r blaen wrth siarad â rhywun roedd yn tybio ei fod yn dod o Cafcass Cymru. O'r wybodaeth gyd-destunol a rannwyd â'r ymchwilydd cyn y cyfarfod, mae'n debygol bod y gweithiwr proffesiynol hwn yn weithiwr cymdeithasol i'r awdurdod lleol ond nid oedd Matt yn siŵr am hyn ar y pryd a dywedodd “roedd [siarad â'r gweithiwr cymdeithasol] wir yn brofiad annymunol. Roeddwn i'n disgwyl yr un peth yn union â'r achlysur cyntaf, a dyna pam doeddwn i ddim yn awyddus iawn i fynd i'r cyfarfod” (Matt, 16).

3.38 Mae'n bosibl y byddai rhoi gwybodaeth fwy penodol yn lleddfu rhai o'r pryderon hyn. Fodd bynnag, mae'n bwysig cydnabod nad oes modd osgoi rhywfaint o ansicrwydd na phryder o ystyried sefyllfa'r teuluoedd a natur y gweithrediadau sy'n mynd rhagddynt pan fydd Cynghorwyr Llys Teulu yn cyfarfod â phlant. Esboniodd Eloise, er gwaethaf cael profiad cadarnhaol iawn wrth siarad â Cafcass Cymru “roedden

ni'n dal i fynd drwy'r broses a doeddwn i ddim wir yn gwybod beth oedd yn dod ar ôl hynny na sut beth fyddai hi" (Eloise, 11). Dywedodd plentyn arall rywbeth tebyg "Ar ôl y sgwrs, roeddwn i'n dal yn eithaf hapus ond bach yn ansicr. Ddim yn esmwyth fy meddwl. Doeddwn i ddim yn teimlo'n drist ond doeddwn i ddim yn teimlo y byddai popeth yn mynd yn dda." (Jay, 8)

*Cael dewisiadau ond peidio â gwneud dewisiadau*

3.39 Ymddangosai fod pob un o'r plant wedi siarad â Cafcass Cymru yn ddirwystr ac nad oedd dim un ohonynt yn nodi eu bod yn teimlo bod Cynghorwyr Llys Teulu wedi rhoi pwysau arnynt i wneud penderfyniadau penodol.

3.40 Fodd bynnag, cododd dau faes lle roedd yn beth prin i'r plant ddisgrifio cael y dewisiadau y byddem yn disgwyl iddynt gofio eu gwneud, sef: dewisiadau ymarferol ynglŷn â sut i gyfarfod â'r Cynghorydd Llys Teulu a dewisiadau ynglŷn â gwahanol ffyrdd o gymryd rhan.

*Dewisiadau ymarferol*

3.41 Roedd yn beth prin i'r plant ddisgrifio cael dewis o ran sut, pryd a ble i ymgysylltu â Cafcass Cymru. Pan gawsant eu holi'n benodol am y dewis hwn, dim ond dau o'r plant (o'r un teulu) a nododd eu bod yn cofio dewis y dull eu hunain: "Fe benderfynon ni godi'r ffôn, felly ie, roedden nhw'n dal i roi'r opsiwn i ni yn y lle cyntaf p'un a oedden ni'n siarad wyneb yn wyneb neu dros y ffôn". (Danny, 17)

3.42 Roedd un o'r plant eraill yn cofio cael dewis cymryd rhan ai peidio gan ei rhieni ond nid sut: "Fe ges i wybod fy mod i'n gallu siarad â nhw os oeddwn i eisiau gwneud hynny. Ac roeddwn i eisiau gwneud hynny ac fe ddywedon nhw felly, "o, iawn, siarada â nhw dros y ffôn"" (Ella, 13).

Y peth mwyaf cyffredin oedd bod eu rhieni wedi dweud wrthynt sut/ble y byddai'r cyfarfod yn digwydd:

"Fe ddywedodd hi [mam] fod y person yn mynd i ddod i'r ysgol i siarad â mi. Fe ofynnodd i mi a oedd hynny'n iawn gen i ac fe ddywedes ei bod yn iawn, ond doeddwn i ddim yn gwybod. Yn gyffredinol, dw i ddim wir yn hoffi siarad â phobl, yn enwedig am fy nheulu." (Matt, 16)

“Does dim syniad gen i. Fe ddywedodd mam wrthon ni ac rwy'n meddwl i ni jest droi i fyny yno.” (Ria, 14)

3.43 Roedd rhai o'r plant yn teimlo'n ddifater ynglŷn â'r dewis o leoliad er nad oeddent wedi penderfynu arno eu hunain:

*“[Ai eich dewis chi oedd cyfarfod yn yr ysgol?]* Nage*. [A phe byddet ti wedi cael dewis ble i gyfarfod, yn y cartref, mewn swyddfa, mewn parc, yn yr ysgol, beth fyddet ti wedi'i ddewis?]* Wel, rwy'n credu y byddwn i wedi dweud nad oedd ots gen i. Doedd hi ddim yn gwneud llawer o wahaniaeth mewn gwirionedd.” (Dylan, 12)

“A dweud y gwir, yr ysgol oedd y lle gorau siŵr o fod. On i'n cael dod allan o'r gwersi am ychydig (chwerthin).” (Matt, 16)

3.44 Dywedodd un o'r plant nad oedd yn teimlo'n gryf ond y byddai wedi dewis yn wahanol pe bai rhywun wedi gofyn iddo: “Roedden ni wedi trefnu i wneud y peth wyneb yn wyneb ond wedyn roedd yn sâl felly fe ddigwyddodd ar-lein. Pe bai rhywun wedi gofyn i mi, fe fyddwn wedi dewis ar-lein yn y lle cyntaf”. (Archie, 11)

3.45 Roedd eraill yn teimlo bod peidio â chael dewis o ran ble i gyfarfod wedi effeithio ar ba mor gyfforddus a pharod i ymgysylltu oeddent. Soniodd un am hyn o ran yr amgylchedd ffisegol ei hun: “Rwy'n credu y bydden ni wedi teimlo'n fwy cyfforddus yn ein cartrefi ein hunain ac y byddai popeth yn teimlo'n fwy agored i gael y math hwn o sgwrs. Yn enwedig achos wedyn fe fyddwch chi'n teimlo y gallwch eistedd fel y mynnoch ar eich soffa eich hun ac yna rydych yn fwy cyfforddus.” (Serena, 16). Ond soniodd plentyn arall am ddymuno cael ei gweld ar dir niwtral a disgrifiodd hyn yn nhermau (diffyg) cysur seicolegol:

> “Byddwn i wedi dewis eu gweld yn yr ysgol achos byddwn i'n teimlo ychydig yn fwy cyfforddus yn siarad wyneb yn wyneb yn lle dros y ffôn. Gall y lein dorri weithiau ac yn yr ysgol, wyddoch chi, fyddwn i ddim yng nghartref fy mam na chartref fy nhad. Byddai wedi bod yn well pe bai rhywun wedi dod i'r ysgol ei hun neu hyd oed pe bawn i wedi derbyn y galwadau ffôn yn yr ysgol. Doeddwn i ddim yn teimlo fel hyn. Fe ddywedes i beth oeddwn i eisiau ei ddweud ond rwy'n credu y byddai rhai plant yn teimlo eu bod eisiau dweud,

wel, beth mae mam ei eisiau gyda'u mam, beth mae eu tad ei eisiau gyda'u tad." (Ella, 13)

3.46 Dywedodd un rhiant fod y cynllun wedi newid er ei bod am i'w phlant gael eu gweld yn y cartref:

> "O beth rwy'n ei gofio, roedden nhw wedi dweud ar y dechrau y bydden nhw'n dod i'r tŷ i weld y plant, a fyddai wedi bod yn syniad da yn fy marn i. Yn amlwg, dyma eu hamgylchedd, ond am ba reswm bynnag, doedd hynny ddim wedi digwydd ac fe ofynnwyd i ni fynd i'r swyddfeydd. Roedd y cyfan ychydig yn rhyfedd iddyn nhw fynd drwyddo. Felly, ie, yn sicr, fe fyddwn i wedi dewis cyfarfod yn y tŷ. Fe fyddai wedi bod yn fwy cyfarwydd, fe greda i." (Mam Jay)

3.47 Mae'n bosibl bod dewisiadau ynglŷn â lleoliad a sut i ymgysylltu â Cafcass Cymru yn cael eu cynnig i'r rhieni ond nad yw'r plant o reidrwydd yn cael gwybod amdanynt. Mae'n bosibl hefyd nad yw'r plant yn cofio gwneud dewisiadau, ond yn y cyfweliadau lle roedd rhieni yn bresennol, ni wnaethant wrthddweud yr hyn a ddywedodd y plant am beidio â chael dewis eu hunain. Serch hynny, nid oedd y plant yn y sampl hon yn teimlo eu bod wedi gwneud dewisiadau ynglŷn â natur eu hymgysylltu â Cafcass Cymru.

*Dewisiadau ynglŷn â ffyrdd amgen/ychwanegol o gymryd rhan*

3.48 Gofynnwyd i'r holl blant a oeddent wedi cael cynnig cyfle i gymryd rhan mewn gweithrediadau mewn unrhyw ffyrdd eraill, ar wahân i siarad â'u Cynghorydd Llys Teulu. Mae'r ffyrdd amgen o gymryd rhan a gynigir ar hyn o bryd yn cynnwys y canlynol: ysgrifennu at y barnwr neu dynnu lluniau i fynegi eu safbwyntiau, mynd i'r llys naill ai i fynegi eu barn yn bersonol neu i arsylwi; a chyfarfod â'r barnwr cyn y gwrandawiad. Dim ond un o'r plant yn y sampl a nododd ei fod wedi cael cynnig y cyfleoedd hyn.

3.49 Dywedodd y plant nad oeddent wedi cael cynnig y cyfleoedd hyn na fyddent wedi dymuno derbyn y cynnig pe baent wedi cael gwybod amdano ar y pryd.

3.50 Gofynnwyd i'r plentyn a oedd wedi cael cynnig ffordd ychwanegol o gymryd rhan p'un a oedd am fynd i'r llys i fynegi ei barn yn bersonol. Yn y dyfyniad isod mae'n esbonio ei bod yn teimlo gwrthdaro am ei bod am sicrhau bod y llys yn clywed ei

barn yn gywir (ac roedd yn pryderu nad oedd y Cynghorydd Llys Teulu wedi deall ei dymuniadau na'i theimladau) ond roedd yn teimlo na allai dderbyn y cynnig i fynd i'r llys am ei bod yn teimlo'n frawychus. Dywedodd “Fe ofynnwyd i mi a oeddwn am fynd yno a dweud beth roeddwn i eisiau ei ddweud o flaen pawb. Am fy mod i'n swil iawn, fe ddywedes i “Dw i ddim wir eisiau mynd”. Roedden nhw eisiau i mi ddweud wrth y person beth oedd fy nymuniadau ac ati, ond roeddwn i'n meddwl na fyddwn i'n teimlo'n gyfforddus yn gwneud hynny, hynny yw byddai'n well gen i beidio â siarad o flaen yr holl bobl hynny.” (Ella, 13)

3.51 Pan ofynnwyd iddi sut y gallai hyn fod wedi bod yn well, nid oedd gan Ella unrhyw awgrymiadau penodol felly awgrymodd yr ymchwilydd rai opsiynau, gan gynnwys recordio nodyn llais ohoni'n siarad neu fideo ar ei ffôn yn esbonio ei safbwyntiau. Mewn ymateb i hyn, dywedodd: “Rwy'n credu y byddai'r nodyn llais neu ysgrifennu llythyr wedi bod ychydig yn fwy cyffordddus am na fyddwn i'n gorfod poeni a fydden nhw'n cael pethau'n anghywir oherwydd os oes gen ti ddarn o bapur neu rywbeth tebyg, byddan nhw'n ei ddarllen a allan nhw ddim newid beth ddywedest ti.” (Ella, 13)

*Dod i wybod am benderfyniad y llys*

3.52 Roedd y plant yn glir eu bod am gael gwybod am beth oedd yn digwydd yn ystod gweithrediadau ac am benderfyniad terfynol y llys.

“Mae'n ymwneud â ni felly, yn sicr, dylen nhw [rhieni] ddod i ddweud wrthon ni beth sy'n digwydd. Fe fydden ni'n disgwyl hynny.” (Danny, 17)

“Fe ddywedodd fy mam wrtha i'n gyflym beth oedd yn digwydd ac roeddwn yn falch am hynny am fy mod i'n berson cywrain, felly rwyf eisiau gwybod popeth sy'n mynd ymlaen.” (Ria, 14)

3.53 Ond roedd safbwyntiau'r plant yn wahanol o ran pwy fyddai wedi bod yn y sefyllfa orau i'w hysbysu am benderfyniad y llys. Er bod y rhan fwyaf ohonynt wedi cael gwybod gan riant a'u bod yn fodlon ar hyn, byddai wedi bod yn well gan ddau blentyn pe bai trydydd parti wedi eu hysbysu am y canlyniad.

3.54 Cafodd y rhan fwyaf o'r plant eu hysbysu am benderfyniad y llys gan un o'u rhieni, neu'r ddau riant ac roeddent yn fodlon ar gael gwybod yn y ffordd hon. Dywedodd

dau o'r plant ei bod “yn fwy cyfforddus” (Danny, 17) ac “yn llai lletchwith” (Ria, 14) cael gwybod gan eu rhieni yn hytrach na thrydydd parti. Roedd un arall yn dymuno cael gwybod am y penderfyniad gan ei rhieni am y gallent roi sicrwydd iddi “ac esbonio sut y bydd y cyfan yn gweithio a dweud y bydd popeth yn iawn” (Eloise, 11).

3.55 Ymddangosai fod y rhan fwyaf o'r plant yn disgwyl cael gwybod am ganlyniad yr achos gan eu rhieni, ond roedd un person ifanc yn synnu nad oedd neb a oedd yn ymwneud â gweithrediadau'r llys wedi cysylltu â hi'n uniongyrchol i'w hysbysu am y canlyniad: “Wel, chlywes i ddim byd ganddyn nhw. Fe ddywedodd mam wrtha i, dyna beth oedd yn mynd i ddigwydd. Roeddwn i'n synnu braidd. Roeddwn i'n meddwl eu bod yn mynd i ddweud wrtha i beth ddigwyddodd ac ati, ac yna fe ddywedodd fy rhieni wrtha i ac fe ddywedes inne “o, iawn, dyna ni felly”. Pan holwyd rhagor am hyn, dywedodd Ella y byddai wedi bod yn well ganddi gael ei hysbysu gan “rywun sydd ddim yn rhan o'r achos”: “Rwy'n credu y byddai wedi bod yn well pe baen nhw wedi dweud wrtha i, nid fy rhieni. Rwy'n teimlo y byddai wedi bod ychydig yn well. Naill ai cael llythyr neu hyd yn oed galwad ffôn neu rywbeth yn dweud beth sy'n digwydd ac ati. Rwy'n teimlo y byddwn i wedi bod yn fwy cyfforddus pe bai [y llys/Cafcass Cymru] wedi dweud wrtha i.” (Ella, 13)

3.56 Nid oedd plentyn arall yn disgwyl cael ei hysbysu gan drydydd parti ond roedd yn teimlo na allai ymddiried yn y naill riant na'r llall i ddweud y cyfan wrtho.

> “Os rwy'n mynd i gael gwybod rhywbeth ynglŷn â fy rhieni, y ddau ohonyn nhw, byddai'n well gen i gael gwybod gan rywun sy'n gwybod beth mae'n ei ddweud, sy'n gwybod i sicrwydd beth sy'n digwydd achos gallai fy mam a fy nhad, wyddoch chi, ddweud rhywbeth fel na fydda i'n mynd i gartref fy nhad neu rywbeth. Os af fi at fy nhad, mae'n sôn am fy mam ac rwy'n dechrau dadlau. Os af fi ati hi, mae'r un peth yn digwydd drwy'r amser, a dweud y gwir. Dyna'r cyfan y bydda i'n ei glywed, maen nhw'n dweud pethau gwahanol am ei gilydd wrtha i, a dw i ddim yn gwybod beth i'w gredu. Mae'r ddau ohonyn nhw yn dweud rhai pethau hurt am ei gilydd, ac ydy, mae'n dechrau chwarae arnat pan fydda i'n cael gwybod bod fy mam wedi bod yn gwneud rhywbeth. Mae hynny'n newid y ffordd rwy'n meddwl amdani'n llwyr.” (Matt, 16)

3.57 Mynegodd ddymuniad cryf i gael ei hysbysu gan barti niwtral megis Cafcass Cymru neu'r barnwr.

> "**Yn bendant**, {pwyslais gwreiddiol} fe fyddai'n well gen i hynny achos wedyn byddwn i'n gwybod bod rhywun sydd ddim yn rhan o beth bynnag sy'n digwydd yn dweud wrtha i. Felly, dim ond gwneud eu gwaith maen nhw a dod o hyd i'r ffeithiau. Yn bendant, rhywun yn y canol i ddweud wrthot ti beth sy'n digwydd, rhywun sydd ddim yn rhan o'r teulu nac sydd ddim yn dangos ochr. Neu rywun sy'n ochri gyda mi, rhywun sy'n ochri gyda mi ac sy'n deall y cyfan achos dw i ddim hyd yn oed yn deall beth rwy'n ei wneud a dweud y gwir". (Matt, 16)

3.58 Yn achos Ella ac yn achos Matt roedd eu rhieni yn anghyd-weld. Efallai y byddai'n fuddiol i blant sydd yn yr amgylchiadau hyn pe baent yn cael eu hysbysu am fanylion y broses, a chael cyfle i ofyn cwestiynau yn ei chylch, hyd yn oed ar ôl i'w rhieni ddweud wrthynt beth yw'r penderfyniad cyffredinol.

**Teimlo eu bod yn cael eu cefnogi**

3.59 Er eu bod yn aml yn teimlo'n ansicr ac yn nerfus, roedd y plant ar y cyfan yn gadarnhaol iawn ynglŷn â sut roedd Cynghorwyr Llys Teulu yn ymgysylltu â nhw a gwnaethant sôn yn aml am deimlo rhyddhad unwaith eu bod wedi dechrau siarad. Dywedodd y plant fod sgiliau rhyngbersonol y Cynghorwyr Llys Teulu yn ffactor allweddol, gan eu disgrifio'n 'gynnes' (Theo, 11), yn 'llawn hwyl' (Harry, 9), ac yn 'garedig' (Ria, 14).

3.60 Disgrifiodd plentyn arall sut roedd wedi cynhyrfu wrth siarad â'r Cynghorydd Llys Teulu dros y ffôn ond dywedodd fod y Cynghorydd Llys Teulu wedi bod yn dda iawn o ran rhoi cysur iddi a'i bod yn teimlo ei bod yn iawn iddi gynhyrfu: "Fe wnes i grio ychydig am ei bod braidd yn frawychus, ac yn fy llethu i. Do, ond fe lwyddes i i ddweud ychydig eiriau am sut roeddwn i'n teimlo ac ati. Felly rwy'n meddwl ei fod yn beth da i mi wneud hynny ac roedden nhw'n neis dros ben ac yn wir yn fy nghysuro i." (Eloise, 11)

3.61 Esboniodd Ella, o gymharu â'r tro diwethaf roedd wedi siarad â Cafcass Cymru, fod y Cynghorydd Llys Teulu y siaradodd ag ef/hi y tro hwn wedi creu rhyw fath o

berthynas â hi cyn ei holi am ei barn, a oedd yn gwneud iddi deimlo'n fwy cyfforddus: “Cyn mynd ati i ofyn cwestiynau am beth roeddwn i ei eisiau, fe ges i fy holi ynglŷn â beth rwy'n [hoffi] ei wneud ac oedd gen i unrhyw anifeiliaid anwes ac ati ac roedd hynny yn gwneud i mi deimlo ychydig yn well. Wnaethon nhw ddim mynd ati'n syth i ofyn y cwestiynau fel y person blaenorol”. (Ella, 13)

3.62 Roedd y plant wedi cael profiadau gwahanol o ran ffactorau eraill a ddylanwadodd ar eu teimladau eu bod yn cael eu cefnogi, a lle roeddent wedi cael profiadau negyddol roeddent yn gallu gwneud awgrymiadau ynglŷn â sut y gellid gwella'r rhain. Mae'r adran hon yn amlinellu'r profiadau hyn drwy ddefnyddio pedair thema sy'n ymwneud â theimlo eu bod yn cael eu cefnogi, sef: ‘rhywun i ochri gyda mi’, ‘cael amser i siarad yn hytrach na mynd ag amser’, ‘materion amgylcheddol’ a ‘cymorth ar ôl cymryd rhan’.

*Rhywun i ochri gyda mi*

3.63 Ni ddywedodd dim un o'r plant eu bod yn teimlo dan bwysau gan y Cynghorydd Llys Teulu i ochri gydag un o'u rhieni neu wneud penderfyniadau penodol.

3.64 Dywedodd y rhan fwyaf o'r plant eu bod yn gwybod beth roedden nhw am ei weld yn digwydd cyn siarad â Cafcass Cymru. Dywedodd dau blentyn eu bod yn gwybod yn rhannol beth roeddent yn ei ddymuno ond bod angen cymorth arnynt gyda'r manylion:

“Roeddwn i'n gwybod am rai pethau roeddwn am iddyn nhw ddigwydd ond fe wnaethon nhw fy helpu i ystyried rhai pethau eraill” (Jay).

“Fe wnaethon nhw roi opsiynau i mi o ran beth allai ddigwydd, a sut y gallwn i weld fy nhad pe bawn i eisiau gwneud hynny ond doeddwn i ddim yn teimlo fy mod i'n gorfod dweud 'ie'. Fe ddywedon nhw bethau fel ‘does dim rhaid i ti dreulio amser gyda dy dad, ond os hoffet ti wneud hynny dyma rai opsiynau’” (Ria, 14).

3.65 Roedd rhai plant, plant hŷn yn eu harddegau yn benodol, yn amlwg yn ymwybodol o natur wrthwynebol yr hyn a oedd yn digwydd yn y teulu a'r risg o ‘ddangos ochr’.

3.66 Disgrifiodd rhai plant fel eu bod yn teimlo bod eu Cynghorydd Llys Teulu yn barti niwtral: ‘Fe allwn i weld pan es i i mewn eu bod nhw ddim yno i ochri â neb [*Sut y*

*gallet ti weld hynny?]* roeddent yn ddigynnwrf iawn, gan adael i mi ddweud beth roeddwn i eisiau ei ddweud' (Dylan, 12).

3.67 Dywedodd un plentyn fod ei brofiad blaenorol o deimlo bod gan weithwyr o sefydliadau eraill 'ragfarn' yn erbyn un rhiant wedi gwneud iddo deimlo'n betrus iawn ynglŷn â chyfarfod â Cafcass Cymru. Fel mae'n digwydd, roedd yn teimlo nad oedd y Cynghorydd Llys Teulu yno i ochri gyda'r naill riant na'r llall: "yn sicr, dwi i ddim yn ochri gyda fy nhad na dim byd. Dw i ddim yn meddwl. bod modd ochri, a dweud y gwir. Mae'r holl beth yn blentynaidd, yn fy marn i. Os rhywbeth, rooedd [Cafcass Cymru] yn ochri gyda mi yn fwy na neb arall drwy'r cyfan." (Matt, 16)

3.68 Disgrifiodd hefyd sut roedd y Cynghorydd Llys Teulu wedi defnyddio ffyrdd mwy cynnill eraill o ochri gydag ef a dangos ei fod yn ei gefnogi. Er enghraifft, drwy fynegi ei fod yn cytuno ag ef ac yn ei gefnogi mewn anghydfod â'r ysgol: "Roedd wir yn deall. Yn deall yn llwyr am fy mod i'n cael llawer o broblemau yn yr ysgol ac [… ] i roi un enghraifft yn unig, fe ges i fy ngwahardd o'r ysgol unwaith ac fe ddywedodd yr ysgol yn syth os caiff rhywun ei wahardd o'r ysgol unwaith ni chaiff fynd i'r prom a dywedodd [y Cynghorydd Llys Teulu] "dyw hynny ddim yn iawn, dylai fod modd i ti adennill y fraint", felly roedd yn deall yn llwyr."

3.69 Mae hyn yn awgrymu bod Cynghorwyr Llys Teulu yn dangos, yn ymhlyg ac yn benodol, nad eu cyfrifoldeb nhw yw ochri â neb ac, yn lle hynny, mai eu gwaith yw cynnig ffyrdd o feddwl drwy eu hopsiynau i blant.

*Cymryd fy amser yn hytrach na mynd ag amser*

3.70 O ran am faint roedd y plant yn siarad â Cafcass Cymru, a sut roeddent yn teimlo am hyd a chyflymder y cyfarfod, cymysg fu'r profiadau.

3.71 Nododd y rhan fwyaf o'r plant eu bod wedi cael cyfle i ddweud popeth roeddent am ei ddweud ac nad oeddent yn teimlo bod y Cynghorydd Llys Teulu yn gwneud iddynt frysio. Tynnodd dau o'r plant sylw penodol at ba mor ddigynnwrf roeddent yn teimlo wrth siarad â'r Cynghorydd Llys Teulu: "doedden nhw ddim yn rhoi pwysau arnon ni i frysio. Wyddoch chi, does dim brys ac yna'n amlwg ar y diwedd fe ofynnon nhw a oedd unrhyw beth arall yr hoffen ni ei dweud ac ati. Fe gawson ni ddigon o gyfle i ddweud beth roedden ni eisiau ei ddweud" (Danny, 17).

Ychwanegodd ei chwaer: “roedden nhw'n gadael i ni siarad, doedden nhw ddim yn torri ar draws ac roedden nhw yn gadael i ni siarad wrth ein pwysau. Doedd dim brys na dim byd.” (Eloise, 11)

3.72 Ni ddywedodd dim un o'r plant fod eu cyfarfod wedi mynd ymlaen yn rhy hir. Roedd un o'r farn ei fod “wedi para am amser eithaf da, nid yn rhy hir nac yn rhy fyr” (Dylan, 12) a theimlai un arall “roedd 25 munud yn amser da am fod llwythi a llwythi o gwestiynau, yn amlwg. Ond doedd dim gormod.” (Danny, 17)

3.73 Fodd bynnag, roedd plant eraill yn synnu pa mor fyr oedd y sgwrs â'r Cynghorydd Llys Teulu. Dywedodd tri phlentyn fod eu sgwrs dipyn yn fyrrach na'r hyn roeddent yn ei ddisgwyl.

3.74 Dywedodd dau blentyn eu bod yn disgwyl mwy o gwestiynau:

“Roeddwn i'n teimlo ei bod wedi mynd yn gyflym iawn. O ran beth roedd angen ei ofyn, roeddwn i'n teimlo eu bod nhw ddim wedi gofyn digon o gwestiynau. Dim ond pedwar neu bump o gwestiynau a atebes i ar fy mhen fy hun, dwi'n meddwl, a wnaethon ni ddim ateb llawer o gwestiynau fel grŵp. Rwy'n teimlo ein bod allan o'r cyfarfod mewn 20 munud.” (Serena, 16)

“Wel, roeddwn i'n meddwl y byddai'n para ychydig yn hirach ac y byddai ychydig mwy o gwestiynau yn cael eu gofyn. Ond fe ddywedon nhw “o, dyna'i gyd sydd ei angen arna i. Diolch. Hwyl fawr.” Ac fe ddywedes inne, “o'r gorau. Hwyl…” roeddwn i'n meddwl y byddai'n para ychydig yn hirach ond doedd hi ddim yn teimlo'n frysiog o reidrwydd. Roeddwn i jest yn meddwl y bydden nhw'n gofyn mwy o gwestiynau i mi.” (Ella, 13)

3.75 Roedd y plant hyn yn teimlo rhywfaint o rwystredigaeth, oherwydd er iddynt gael eu holi am eu barn, nad oedd y sgwrs yn ddigon dwfn na manwl iddynt fynegi eu hunain yn llawn. I Ella, roedd mwy o rwystredigaeth byth am ei bod yn teimlo nad oedd y Cynghorydd Llys Teulu wedi llwyr ddeall yr hyn roedd yn ei ddweud. Trafodir yr enghraifft hon yn fanylach yn yr adran ganlynol.

3.76 Dywedodd y person ifanc arall ei fod yn teimlo bod y cyfarfod â'r Cynghorydd Llys Teulu yn gyflym iawn oherwydd yr ymddangosai fel petai'n brin o amser: “Dwi i ddim

yn meddwl y gallai hyd yn oed aros yn yr ysgol mor hir â hynny am fod y cyfarfod yn fyr iawn. Roedd yn gyflym iawn, 10-15 munud. Rhywbeth felly.” (Matt, 16)

3.77 Aeth yn ei flaen i ddisgrifio sut roedd hyn wedi effeithio ar faint roedd yn gallu ei rannu. Wrth fynegi ei rwystredigaeth a'i ofid meddwl am sefyllfa'r teulu, dywedodd “Dyw'r teulu ddim fel teulu go iawn. Rwyf eisiau cael ymdeimlad go iawn o deulu, fel hapusrwydd.” Gofynnodd yr ymchwilydd *[Oeddet ti'n gallu mynegi'r pethau hyn i'r Cynghorydd Llys Teulu?]* ac esboniodd Matt fod angen mwy o amser iddo ddechrau siarad: “Dw i ddim yn sôn wrth neb am bethau fel hyn. Wel…y peth yw, os siarada i â rhywun am ryw bum munud, fydda i ddim yn dweud dim byd wrthyn nhw. Ond os siarada i â nhw am ychydig, yna bydda i'n dechrau'n aros, yn dweud am rai pethau ar ôl ychydig, fel rwyf wedi'i wneud nawr. Rwy'n teimlo y byddai wedi bod dipyn yn well pe bawn wedi cael mwy o amser. Dipyn yn well, ond roedd yn dal i fod yn dda, sut bynnag.”

3.78 Awgrymodd trafodaeth bellach â Matt hefyd y gallai fod wedi bod yn fuddiol pe bai wedi cael mwy nag un cyfle i gyfarfod â Cafcass Cymru:

> “Mae gen i gof byw o'r diwrnod ei hun, y diwrnod hwnnw roeddwn mewn hwyliau ofnadwy, hwyliau ofnadwy, a dw i ddim yn gwybod ai'r ysgol, neu bethau teuluol oedd yn gyfrifol am hynny, ond roeddwn wir mewn hwyliau drwg, ac roeddwn mewn hwyliau drwg cyn y cyfarfod hefyd. Roedd fy mhen ar y ddesg. Doeddwn i ddim yn gwrando ar ddim byd. Doeddwn i ddim yn yr hwyliau iawn i siarad â nhw. Pe bai popeth wedi bod yn iawn, yna byddwn wedi deall llawer mwy, wedi deall yr holl bethau roedden nhw'n eu dweud. Ac yna, byddwn i wedi rhoi mwy o wybodaeth. Fe alla i ddweud wrthoch chi, ond ta beth. Mae'n dibynnu ar ba hwyl sydd arna i wrth siarad â mi.” Pan ofynnwyd “wyt ti'n meddwl pe byddet ti wedi cyfarfod â'r person fwy nag unwaith y gallai hynny fod wedi helpu i chi ddechrau dod yn gyfarwydd â'ch gilydd?” atebodd: “Ydw, yn bendant, yn bendant. Dyna'n union pam y byddai angen i mi feithrin perthynas dros ychydig ddiwrnodau a byddai angen i bobl fy neall i. Er mwyn dod i wybod sut un wyf fi fel y gallwn, wyddoch chi, fod yn hapus ac yn llawn egni ac ati, ond yna fe allwn fod yn ddig a pheidio â dweud ryw lawer.”

3.79 Mae adborth y bobl ifanc hyn ynglŷn â natur gryno annisgwyl eu rhyngweithio â Cafcass Cymru a'i natur ‘un cyfle yn unig’ i fynegi eu barn yn bwysig am ei fod yn tynnu sylw at y ffaith y gallai fod yn fuddiol i blant o bob oedran, nid dim ond plant iau, gael cyfle i siarad â Cafcass Cymru yn fwy o amser neu gael ymweliadau ymgyfarwyddo.

*Materion amgylcheddol*

3.80 Fel y trafodir ym mharagraff 3.42, roedd y graddau roedd y plant wedi cael dewis ble, pryd a sut roeddent yn ymgysylltu â Cafcass Cymru yn amrywio gryn dipyn. Yn yr adran hon, rydym yn trafod sut roedd y lleoliad a/neu'r dull ymgysylltu wedi effeithio ar ba mor gyfforddus oedd y plant wrth gyfarfod â'u Cynghorydd Llys Teulu ac i ba raddau roeddent yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi.

3.81 Cymysg fu barn y plant o ran eu profiad o fynd i gyfarfodydd yn swyddfeydd Cafcass Cymru, a hynny o bosibl am fod tair swyddfa wahanol gan Cafcass Cymru yn y gogledd a bod y plant wedi ymweld â swyddfeydd gwahanol. Roedd rhai yn rhoi disgrifiadau cadarnhaol iawn o'r amgylchedd. Dywedodd un rhiant fod yr ardal aros yn “ystyriol o blant yn yr ystyr nad oedd golwg foel swyddfa arni” (Mam Theo). Dywedodd un person ifanc “roedd yn lle neis, hamddenol iawn. Felly roeddwn i'n teimlo'n ddiogel ac yn hapus yno” (Ria, 14) a soniodd eraill am y golygfeydd a'r “cadeiriau cyfforddus mawr” (Theo, 11).

3.82 Roedd eraill yn teimlo bod amgylchedd y swyddfa wedi cyfrannu at eu teimladau o fod yn anghyfforddus a/neu ddryslyd ac wedi'u dwysáu. Disgrifiodd Serena yr amgylchedd mewn ffordd glinigol: “Lleoliad anghyfforddus iawn ydy o yn y bôn. Mae ychydig yn lletchwith ac ati fel y mae siarad â phobl amdano. Ac wedyn mae ystafell orau iawn. Felly mae popeth yn gwneud i ti deimlo ychydig o fraw. Rwy'n credu ei fod ddim yn gartrefol iawn felly mae'n lletchwith. Mae'n teimlo fel ysbyty.”

3.83 Yn achos un plentyn ifanc, roedd y ciwiau gweledol o'r teganau yn yr ystafell aros wedi arwain at fwy o ddryswch: “felly yn y bôn roedd bwrdd bach. Roedd tua phum tegan bach arno, ddywedwn i. Roeddwn i ond yn eistedd yno. Beth ddylwn ei wneud gyda hyn. Yn ddryslyd iawn.” (Jay, 8)

3.84 Fel y trafodir ym mharagraff 3.59, roedd ystyriaethau eraill ynglŷn â'r lleoliad yn cynnwys dymuniad i gael sgwrs yn yr ysgol er mwyn bod ar dir niwtral.

3.85 Roedd y rhan fwyaf o'r plant a siaradodd â Cafcass Cymru dros y ffôn/drwy alwad fideo yn fodlon ar hyn (gyda'r eithriadau a amlinellir uchod). Ymhlith manteision hyn roedd y canlynol: roedd yn ymarferol, yn gyflymach ac yn haws na chyfarfod wyneb yn wyneb.

*Cymorth ar ôl cymryd rhan*

3.86 Codwyd rhai risgiau/ôl-effeithiau posibl cymryd rhan yn ystod y cyfweliadau. Efallai y bydd angen cymorth ar blant gyda'r rhain ar ôl bod yn destun gweithrediadau.

3.87 Dywedodd dau blentyn ei bod yn achosi gofid ac yn siomedig clywed darnau o wybodaeth o wrandawiad y llys roeddent wedyn yn gorfod eu dwyn yn eu perthynas â'u rhiant/rhieni. Disgrifiodd y plant hyn yr effaith arnynt ar ôl clywed nad oedd rhiant wedi gweithredu yn y ffordd roeddent yn ei disgwyl. Er enghraifft, soniodd un o'r plant am glywed nad oedd ei dad wedi bod yn bresennol yn y gwrandawiad llys, er mai ef oedd y ceisydd: "Fe holais i mam. Fe ofynnes i "sut aeth hi? Beth ddigwyddodd?" Atebodd hi. "o wnaeth dy dad ddim troi i fyny". Dyma beth sy'n gwneud i mi wylltio. Fe benderfynodd fy mam ddwyn achos yn ei erbyn er mwyn i mi allu aros yma. Ond wnaeth fy nhad ddim hyd yn oed troi i fyny, a oedd yn fy ngwylltio am nad oedd hyd yn oed yn barod i wneud ymdrech i mi aros gyda fo." (Matt, 16). Soniodd un arall am ddod i wybod nad oedd ei thad wedi dilyn cyfarwyddiadau'r llys ynglŷn â chadw cyswllt:

> "Fe wnaeth y barnwr ddyfarnu bod yn rhaid iddo anfon rhoddion fel neges destun neu weithiau bod yn rhaid iddo gadw mewn cysylltiad er mwyn datblygu'r berthynas unwaith eto achos dwi'n meddwl i ni ddweud yr hoffen ni ei datblygu eto, ond ei bod yn mynd i gymryd tipyn o ymdrech. Ond dyw e ddim yn gwneud hynny. Ddim yn gwneud dim byd felly, ddim yn anfon negeseuon testun ata i. Dw i ddim yn fodlon ei fod yn gallu anwybyddu beth mae'r llysoedd yn dweud wrtho am ei wneud, a does dim byd goblygiadau i hynny." (Serena, 16)

3.88 Roedd clywed y ‘pytiau’ bach hyn am beth oedd wedi digwydd yn y llys/ar ôl bod yn y llys, yn enwedig mewn sefyllfaoedd lle roedd y rhieni yn anghyd-weld, fel petai'n dwysáu teimladau o rwystredigaeth a siom.

3.89 Ystyriaeth arall sy'n deillio o'r darnau hyn o'r cyfweliadau yw'r risg y bydd y bobl ifanc yn eu harddegau sy'n cymryd rhan yn beio eu hunain. Dywedodd rhai o'r plant hŷn bethau a oedd yn awgrymu eu bod yn beio eu hunain lle nad oedd y rhyngweithio â'r Cynghorydd Llys Teulu wedi mynd cystal ag y gallai fod. Er enghraifft, roedd y ffordd roedd Matt (16) yn disgrifio ei hwyliau ar y diwrnod, a'i duedd i “beidio â sôn wrth neb am bethau o'r fath” yn awgrymu ei fod yn teimlo mai ef oedd yn gyfrifol am sicrhau bod pethau'n iawn ar y diwrnod ac roedd awgrym ei fod yn ei feio ei hun am beidio â manteisio'n llawn ar y cyfle ar y pryd.

3.90 Cafwyd rhyw awgrym o hyn yng nghyfweliad Ella (13) hefyd. Disgrifiodd ei hun fel rhywun nad oedd “yn dda am siarad â phobl” gan esbonio (fel y'i disgrifir uchod), er yr hoffai fod wedi mynd i'r llys i esbonio ei dymuniadau, ei bod yn rhy swil ac yn teimlo gormod o fraw i wneud hynny.

3.91 Yn olaf, roedd yn amlwg bod rhai o'r bobl ifanc yn yr astudiaeth yn teimlo eu bod wedi chwarae rhan amlwg pan wnaeth eu rhieni wahanu ac y byddai rhagor o gymorth gyda hyn wedi bod yn fuddiol. Dywedodd un o'r plant “Rwy'n drysu'n lân nad oes neb yn gofyn i mi ynglŷn â chael cymorth am unrhyw beth. Y cyfan sydd ei eisiau yw cael gwybod beth sy'n digwydd.” (Matt, 16)

3.92 Teimlai un arall mai hi oedd yn ysgwyddo'r holl straen a phwysau am mai hi oedd y plentyn hynaf: “Mae fel cysgod drosof fi. Mae'n pwyso arna i drwy'r amser. Mae hyn yn digwydd, dwi'n meddwl, am mai fi yw'r hynaf ac yn amlwg fe fydda i yno i ddiogelu'r lleill a phopeth.” (Serena, 16)

3.93 Ni soniodd y plant am gael cymorth o ffynonellau eraill ond teimlai Serena y dylai hyn fod wedi cael ei gynnig yn ystod y broses wahanu, boed hynny gan Cafcass Cymru neu sefydliadau eraill: “Rwy'n meddwl bod angen iddyn nhw gynnig cwnsela i bobl ifanc am fod cwnsela yn gostus. Does dim modd cael cwnsela drwy'r ysgol a dyw'r rhan fwyaf o'r ysgolion ddim yn gallu ei drefnu am oesoedd achos y rhestrau aros. Pan fydd eich rhieni yn ysgaru, y tebyg yw na fydd unrhyw gwnsela yn yr

ysgol am chwe mis arall. Felly, rwy'n teimlo bod angen cynnig y math hwn o gymorth.”

# 4. Canfyddiadau: grwpiau ffocws â Chynghorwyr Llys Teulu

Mae'r adran hon yn crynhoi canfyddiadau'r grwpiau ffocws â Chynghorwyr Llys Teulu mewn perthynas â dau faes: sut roeddent yn meddwl bod y model Braenaru yn hyrwyddo'r ffordd roedd plant yn cymryd rhan mewn gweithrediadau preifat, a'r heriau roeddent yn dod ar eu traws wrth gynnwys plant fel rhan o'r ffordd hon o weithio. Mae'r adran yn gorffen drwy fyfyrio ar yr hyn y mae'r rhwystrau a'r hwyluswyr hyn o ran cymryd rhan yn ei olygu wrth eu hystyried yng ngoleuni canfyddiadau'r cyfweliadau.

**Disgrifiad o sampl y grwpiau ffocws**

4.1 Roedd pob un o'r Cynghorwyr Llys Teulu (n=10) wedi cael profiad o achosion Braenaru. Roedd hanner y sampl (n=5) wedi cael profiad o weithio o dan y model busnes fel arfer (Rhaglenni Trefniadau Plentyn) a'r model Braenaru, ac roedd yr hanner arall wedi gweithio ar achosion Braenaru yn unig. Ceir rhestr o gyfranogwyr y grwpiau ffocws a nodweddion perthnasol yn Atodiad B. Rhoddwyd dynodyddion rhifiadol dienw i gyfranogwyr er mwyn eu diogelu rhag cael eu hadnabod, o ystyried graddfa fach yr astudiaeth a'r cynllun peilot Braenaru.

**Sut mae'r model Braenaru yn hyrwyddo cyfranogiad plant?**

*Mae'n gallu rhoi lle blaenllaw a chanolog i leisiau plant o'r cychwyn cyntaf*

4.2 Wrth fyfyrio ar y gwahaniaethau rhwng y model Braenaru a'r model busnes fel arfer, roedd y Cynghorwyr Llys Teulu yn gadarnhaol ynglŷn â'r cyfleoedd roedd y model Braenaru yn eu cynnig i integreiddio safbwyntiau plant yn y broses gwneud penderfyniadau ar gam cynnar: “Byddwn yn cytuno, os oes plentyn yn gallu mynegi ei safbwyntiau a'i ddymuniadau, ei bod yn well gwneud hynny yn gynharach yn y broses yn hytrach nag yn ddiweddarach” (Cyfranogwr 4) a “Rwy'n meddwl bod hyn yn bendant yn hyrwyddo rhoi'r plentyn wrth wraidd unrhyw fath o broses gwneud penderfyniadau” (Cyfranogwr 3).

4.3 Disgrifiodd Cynghorydd Llys Teulu arall sut y gallai'r model busnes fel arfer yn aml arwain at wneud penderfyniadau heb unrhyw ystyriaeth uniongyrchol o safbwynt y plentyn: “Byddech yn ymgymryd â chymodi yn y llys yn ystod yr hyn a elwir yn Apwyntiad Datrys Anghydfod Gwrandawiad Cyntaf gennym ac yn eithaf aml gallai

trefniadau gael eu gwneud bryd hynny a gallai gorchmynion terfynol gael eu gwneud heb gofnodi llais y plentyn o gwbl" (Cyfranogwr 10).

4.4 Wrth roi enghreifftiau o'r ffordd roeddent wedi gweithio gyda phlant o dan y model Braenaru, roedd yn amlwg bod y Cynghorwyr Llys Teulu yn teimlo bod y cyfle i ymgysylltu â phlant yn gynharach yn ystod y broses yn ychwanegu cryn werth at yr argymhellion roeddent yn gallu eu gwneud, ac felly ansawdd y penderfyniadau a wneir gan y llys: "Rwy'n credu ei fod yn gweithio'n dda i blant ar y cyfan. Rwy'n credu ei fod yn rhoi cyfle iddynt leisio eu barn ac y dylai pob un ohonom roi'r flaenoriaeth ar hynny, ac o dan y ffordd hon o weithio caiff plant gyfle i ddweud eu dweud. Mae hynny'n amlwg yn dylanwadu ar ein hargymhellion a dylai wneud hynny." (Cyfranogwr 3)

4.5 Rhoddodd y Cynghorwyr Llys Teulu enghreifftiau niferus lle roeddent yn teimlo bod y model Braenaru wedi arwain at sefyllfa lle roedd plant yn cael eu cynnwys mewn gweithrediadau a bod eu dymuniadau a'u teimladau yn cael eu hystyried: "Os nad oeddem wedi bod yn rhan o'r broses nac wedi dilyn y model Braenaru, byddai lleisiau'r plant hynny wedi bod ar goll a ni fyddent wedi bod yn cael cysylltiad â'u tad nawr er eu bod yn daer am ei weld". (Cyfranogwr 3)

4.6 Gwnaethant ddisgrifio dwy ffordd wrthgyferbyniol lle roedd y model Braenaru wedi eu galluogi i gasglu safbwyntiau plant, yn dibynnu ar y lefel ymgysylltu roedd plant yn ei dymuno a/neu'n gallu ymgymryd â hi: gan gynrychioli lleisiau plant yn uniongyrchol yn yr Adroddiad ar yr Effaith ar y Plentyn a chefnogi cyfranogiad anuniongyrchol.

*Yn gallu cynrychioli lleisiau plant yn uniongyrchol yn yr Adroddiad ar yr Effaith ar y Plentyn*

4.7 Lle roedd plant yn glir ynglŷn â'u safbwyntiau ac yn awyddus i'w lleisio, disgrifiodd Cynghorwyr Llys Teulu sut roeddent yn cynrychioli eu safbwyntiau mewn modd uniongyrchol.

4.8 Disgrifiodd un Cynghorydd Llys Teulu achos lle roedd plentyn wedi nodi'n glir nad oedd am gael cysylltiad ag un o'i rieni: "Roeddwn yno am awr gyfan ac roedd y

plentyn mor glir ynglŷn â'i ddymuniadau. Fe wnes i eu hysgrifennu air am air yn y blwch hwnnw a dyna brif ran yr adroddiad mewn gwirionedd." (Cyfranogwr 6)

4.9 Disgrifiodd Cynghorwyr Llys Teulu eraill enghreifftiau tebyg lle roeddent yn teimlo mai drwy ddyfynnu'r plant yn uniongyrchol oedd y ffordd fwyaf pwerus o gyfleu eu safbwyntiau:

> "Rwy'n credu pan fyddwn yn dyfynnu'r hyn y mae plant yn ei ddweud yn eu geiriau eu hunain, mai'r hyn y mae'n rhaid i ni ei ystyried yw cael y llysoedd i ddeall y plentyn hwnnw, oherwydd, yn aml, nid yw'r barnwr hwnnw yn cyfarfod â'r plentyn oni bai bod y plentyn yn gofyn am hynny. A, dywedwn i, nid yw hynny'n digwydd 90% o'r amser, os nad mwy. Fe wyddoch nad yw'r plant yn aml yn awyddus i siarad â nhw, felly maen nhw'n dibynnu arnon ni i ddod â'r plentyn hwnnw yn fyw yn yr adroddiad hwnnw a hefyd mae'n gyfle i'r rhieni wrando, neu bwy bynnag, i wrando ar yr hyn y mae'r plentyn hwnnw yn ei ddweud a gall hynny fod yn eithaf pwerau hefyd." (Cyfranogwr 3)

4.10 Fodd bynnag, mae'n werth nodi mai ychydig o'r Cynghorwyr Llys Teulu a ddisgrifiodd sefyllfa lle roedd plant wedi cytuno ar ddulliau amgen/ychwanegol o gymryd rhan (er enghraifft, siarad â'r barnwr neu ysgrifennu llythyr, neu fynd i'r llys). Rhoddodd un Cynghorydd Llys Teulu (Cyfranogwr 8) enghreifftiau o ddau achos lle roedd y plant wedi derbyn cynnig i gyfarfod â'r barnwr, ond y rhain oedd yr unig enghreifftiau y cyfeiriodd y Cynghorydd Llys Teulu atynt.

*Cefnogi cyfranogiad anuniongyrchol*

4.11 Lle nad oedd plant yn dymuno cymryd rhan mor uniongyrchol â'r enghreifftiau uchod neu lle nad oeddent yn teimlo eu bod yn gallu gwneud hynny, disgrifiodd Cynghorwyr Llys Teulu ddulliau eraill o gofnodi a chyfleu safbwyntiau plant gorau y gallent. Gwnaethant ddisgrifio defnyddio arsylwadau ar blant neu ddisgrifio unrhyw ryngweithio â nhw wrth iddynt geisio casglu eu safbwyntiau.

4.12 Roedd hyn yn arbennig o wir lle roedd Cynghorwyr Llys Teulu yn amau bod plant yn teimlo dan bwysau i ochri ag un rhiant dros y llall neu'n teimlo 'gwrthdaro' rhwng eu rhieni. Roedd y model Braenaru hefyd yn rhoi cyfle iddynt amlinellu eu pryderon i'r barnwr: "Rydym yn gallu ysgrifennu'n uniongyrchol at y barnwr erbyn hyn a chodi'r

pryderon hynny. Yna, oherwydd y plant, hyd yn oed os nad ydynt yn dweud unrhyw beth o bosibl, bydd ôl-effeithiau iddynt." Roedd ymdeimlad cyffredinol bod y model Braenaru yn cynnig mwy o hyblygrwydd o ran sut y gallai Cynghorwyr Llys Teulu gynnwys a chynrychioli'r plant hyn, a hefyd y rhai a dderbyniodd gynnig i gymryd rhan yn uniongyrchol.

*Lleihau'r straen ar y teulu a gorbryder plant*

4.13 Un o fanteision eraill y model Braenaru a nodwyd gan gyfranogwyr oedd y gallai siarad â phlant yn gynharach leihau'r pwysau a'r staen ar deuluoedd a thrwy hynny effaith gweithrediadau ar blant: "Y broblem gyda'r system honno [y model busnes fel arfer] oedd y byddech chi'n siarad â phlant ond erbyn hynny, roedd hyd yn oed mwy o elyniaeth o bosibl wedi datblygu ac roedd yr Apwyntiad Datrys Anghydfod Gwrandawiad Cyntaf yn rhoi llawer o bwysau ar rieni ac felly rwy'n siŵr ei bod yn helpu nad ydynt wedi mynd drwy'r broses honno mewn gwirionedd cyn i ni weld y plant hyd yn oed." (Cyfranogwr 2). Dywedodd cyfranogwr arall bethau tebyg am gyfarfod â phlant ar gam cynharach "rwy'n credu y bydd hynny'n un fantais: nid ydych yn gweld rhieni sydd wedi mynd drwy eithaf tipyn o'r broses cyn i ni gael cyfle i siarad â'r plant sy'n ddigon hen i gymryd rhan" (Cyfranogwr 3).

4.14 Esboniodd un cyfranogwr fod cynnwys plant yn gynharach hefyd yn cynnig cyfle i egluro iddynt beth oedd yn digwydd yn y teulu, a all hefyd liniaru teimladau o ofid a gorbryder: "Rwyf hefyd wedi sylwi ar y fantais honno, ond yn achos rhai plant nad oes ganddynt syniad beth sy'n digwydd mae mynd allan a chyfarfod â nhw yn rhoi cyfle iddynt ofyn beth sy'n digwydd mewn gwirionedd a gall hynny dawelu eu meddwl, rhoi sicrwydd iddynt, lleihau gorbryder heb fod angen iddynt hyd yn oed roi barn ynglŷn â'r hyn sy'n digwydd." Cyfranogwr 9

*Sicrhau newidiadau yn ymddygiad rhieni*

4.15 Soniodd Cynghorwyr Llys Teulu hefyd am gael mwy o gyfleoedd i gael dylanwad cadarnhaol ar ymddygiad rhieni o dan y model Braenaru. O dan y model busnes fel arfer, dim ond yr achosion hynny na ellid eu datrys yn yr Apwyntiad Datrys Anghydfod Gwrandawiad Cyntaf a fyddai wedi cynnwys ystyriaeth o safbwyntiau'r

plant, ond mae'r model Braenaru yn rhoi cyfle i rieni glywed am effaith y sefyllfa gyfredol ar eu plentyn/plant.

4.16 Disgrifiodd sawl un o'r Cynghorwyr Llys Teulu sut roeddent yn defnyddio llais y plentyn yn yr Adroddiad ar yr Effaith ar y Plentyn er mwyn helpu rhieni i ddeall beth oedd yn digwydd i'w plentyn ac effaith y gwrthdaro rhyngddynt:

"Fel arfer [o dan y model busnes fel arfer] byddech yn canolbwyntio ar y materion rhwng yr oedolion ond o'r ychydig o achosion rwyf wedi'u paratoi, rwyf wedi ceisio eu hysgrifennu i fod yn ddefnyddiol i'r oedolion o ran dangos iddynt yr effaith ar eu plant yn y gobaith y bydd hynny'n newid eu meddylfryd a dweud y gwir. Felly, fy ngobaith i yw pan fydd yr oedolion yn darllen yr adroddiad hwnnw maen nhw'n dweud "o, iawn. O'r gorau, gadewch i ni roi'r gorau i wneud hyn". Dyna'r gobaith onid e?" (Cyfranogwr 1)

4.17 Disgrifiodd Cynghorwyr Llys Teulu eraill achosion lle roeddent yn teimlo bod hyn wedi bod yn llwyddiannus o ran lleihau'r gwrthdaro rhwng y rhieni a datrys materion i'r teulu:

> "Rwyf wedi cael sawl achos lle mae'r rhieni wedi bod yn benben â'i gilydd, ond ar ôl clywed yn annibynnol yr hyn y mae'r plentyn yn ei ddweud ac i mi gael dweud, edrychwch "rhaid i hyn stopio. Rydych yn gwneud niwed i'ch plentyn." Rwyf wedi gweld bod y rhieni wedi newid yn llwyr, wedi tynnu'n ôl. Fyddwn i ddim yn dweud eu bod wedi rhoi'r gorau i ddadlau, ond yn sicr maen nhw wedi newid eu hymddygiad. Rwy'n meddwl siŵr o fod [gyda'r] hen ffordd o weithio [gyda'r] Asesiad o'r Effaith ar y Plentyn a'r Apwyntiad Datrys Anghydfod Gwrandawiad Cyntaf mai dyna'r darn o wybodaeth oedd ar goll. Beth oedd effaith yr holl anghydfod hwn rhwng y rhieni ar y plant hyn? A fydden ni ddim yn gwybod ar y cam hwnnw, ond nawr am ein bod yn siarad â'r plant yn gynharach, gallwch fwydo hynny yn ôl i'r rhieni a gallwch gyfleu'r negeseuon iddynt ynglŷn ag effaith hynny ar y plant ac apelio atynt fel rhieni i wneud rhai newidiadau." Cyfranogwr 9

4.18 O dan y model busnes fel arfer, byddai achosion wedi mynd drwy Apwyntiad Datrys Anghydfod Gwrandawiad Cyntaf cyn i'r rhieni gael cyfle i wrando ar safbwyntiau eu plant fel y'i disgrifiwyd gan y Cynghorydd Llys Teulu hwn. Nod y model Braenaru yw

bod y datrysiad rhwng y rhieni yn cael ei lywio gan safbwyntiau'r plant mor gynnar â phosibl ac, wrth wneud hynny, y bydd cytundebau yn cael eu llunio cyn bod agweddau'r partïon ynglŷn â materion wedi hen galedu nes eu bod yn achosi rhagor o niwed i'r plant a'r rhieni.

*Cael profiad o dderbyniad cadarnhaol gan y farnwriaeth*

4.19 Cafwyd consensws cyffredinol ymhlith y cyfranogwyr bod gan y barnwyr ddiddordeb mewn clywed safbwyntiau'r plant a'u bod yn eu hystyried yn bwysig: “Rwy'n credu bod gan y barnwyr ddiddordeb mawr mewn clywed beth mae'r plant eu hunain yn ei ddweud am y sefyllfa, ac rwy'n credu eu bod yn rhoi eithaf tipyn o sylw i hynny” a “Rwy'n credu bod y barnwyr yn awyddus iawn i ganfod beth sy'n digwydd o ran y plant. Yr ynadon, rwy'n credu mai dyna sydd wrth wraidd y mater i bawb sy'n gweithio yn y maes hwn” (Cyfranogwr 10)

4.20 Cafwyd cytundeb cyffredinol hefyd fod safbwyntiau'r plant yn cael eu cymryd o ddifrif yn y llys. Cytunodd sawl un o'r Cynghorwyr Llys Teulu yng ngrŵp ffocws 1 ar hyn: “Rwy'n meddwl fy mod i'n cytuno'n llwyr â'r hyn y mae [eraill] wedi'i ddweud - mae'n ymddangos bod y llysoedd yn gwrando ar yr hyn rydym yn ei argymell” (Cyfranogwr 3)

4.21 Myfyriodd un Cynghorydd Llys Teulu ar oblygiadau hyn i'w rôl, gan awgrymu bod y model Braenaru yn golygu datblygiad yn rôl y Cynghorydd Llys Teulu a mwy o gyfrifoldeb: “Rwy'n credu mai'r hyn y mae'r model Braenaru yn ei wneud yw sicrhau bod y Cynghorwyr Llys Teulu yn fwy atebol o ran gwneud argymhellion a phenderfyniadau, ac y gwrandewir ar hynny yn y llys. Felly, ydy, mae'n broses dda, yn fy marn i. Ond rwy'n meddwl ei bod, yn amlwg, yn rhoi mwy o gyfrifoldeb arnon ni, y Cynghorydd Llys Teulu, yn hyn o beth.” (Cyfranogwr 7)

**Heriau sy'n gysylltiedig â hyrwyddo cymryd rhan o dan y model Braenaru**

4.22 Yr her allweddol a nodwyd gan Gynghorwyr Llys Teulu o ran hyrwyddo cymryd rhan o dan y model Braenaru oedd diffyg amser.

4.23 Ymddangosai fod dau ffactor gwahanol a oedd yn golygu bod Cynghorwyr Llys Teulu yn teimlo ‘prinder amser’; anhyblygrwydd y terfynau amser a gyflwynwyd o

dan y model Braenaru a'r cyfyngiadau ar amser a oedd yn bodoli eisoes, sydd wedi dod yn fwy o broblem gyda'r terfynau amser byrrach. At ddiben yr adroddiad hwn, amlinellir pob un yn gryno isod, ac esbonnir sut maent yn ymwneud â chyfranogiad plant yn y model Braenaru.

*Terfynau amser anhyblyg*

4.24 Roedd cyfranogwyr yn y ddau grŵp ffocws yn teimlo'n gryf bod 'un ateb i bawb' ar waith o ran terfynau amser y model Braenaru. Dadleuwyd bod angen mwy o hyblygrwydd i benderfynu ar derfynau amser priodol ar gyfer achosion a bod y terfyn amser o chwe wythnos ar gyfer pob achos: "yn gallu bod ychydig yn rhwystredig weithiau ac, yn dibynnu ar yr achos, os mai dim ond chwe wythnos sydd gennym, gall hynny fod yn gyfnod eithaf byr. Mae achosion eraill yn eithaf syml, a gallech ymdrin â nhw mewn tair wythnos". (Cyfranogwr 3) Esboniodd un arall: "i mi, y darn sydd ar goll yn y model hwn yw bod un ateb i bawb ar hyn o bryd, felly mae popeth, heb feddwl o gwbl 'beth fydd yr achos hwn yn ei olygu mewn gwirionedd?' mae popeth yn cael adroddiad o fewn chwe wythnos". (Cyfranogwr 5)

4.25 Roedd yn teimlo bod hyn yn arbennig o bwysig mewn achosion mwy cymhleth: "Rwy'n credu bod lle i geisio sicrhau'r hyblygrwydd hwnnw i gael ychydig mwy o amser o bosibl, wyddoch chi, er mwyn ceisio deall lle mae pethau […] yn gynhennus iawn, yn wenwynig ac yn gymhleth iawn." (Cyfranogwr 7)

4.26 Mae'n bwysig nodi bod y Cynghorwyr Llys Teulu o blaid terfynau amser byrrach ar gyfer gweithrediadau yn gyffredinol, gan ddadlau y byddent yn well i deuluoedd. Dywedodd un: "os gallwn wneud pethau'n gynt, mae'n rhaid bod hynny'n well i deuluoedd a oedd, cyn hyn, yn mynd drwy weithrediadau hirfaith iawn yn y llys, a dyw hynny ddim yn beth da i neb. Dyw hyn ddim yn beth da i rieni ac, yn sicr, dyw hyn ddim yn beth da i blant am ei fod yn achosi llawer o straen" (Cyfranogwr 5). Dywedodd eraill eu bod yn mwynhau natur "gyflym" y gwaith o dan y model Braenaru (Cyfranogwr 6).

4.27 Fodd bynnag, gwnaethant awgrymu bod angen mwy o 'frysbennu' o ran achosion, a hynny'n seiliedig ar ba mor gymhleth oeddent, gyda mathau gwahanol o derfynau amser yn cael eu pennu ar gyfer achosion gwahanol a, thrwy hynny, lefelau gwahanol o ymwneud â phlant. Roedd rhai Cynghorwyr Llys Teulu yn awgrymu

mewn rhai achosion, naill ai'r rhai hynny a oedd yn syml iawn (megis ceisiadau am basbort neu orchmynion cydsynio) neu lle roedd yn annhebygol iawn y byddai'r achos yn mynd rhagddo, y gallent gael eu cwblhau o fewn terfyn amser byrrach gyda llai o ymwneud â phlant, yn debycach i'r model busnes fel arfer: “mae'n llafurus iawn gwneud hyn ar bob un achos. Rwy'n credu y byddwn i'n dweud y dylai fod mwy o borthgadw ac rwy'n credu bod rhai achosion yn dod trwodd lle rydych yn gallu gweld cyn i chi wneud unrhyw waith arno nad yw'n briodol. Nid yw hynny'n angenrheidiol” (Cyfranogwr 4). Awgrymodd cyfranogwr arall rywbeth tebyg: neilltuo achosion i dri llwybr yn ôl cymhlethdod a'r terfyn amser disgwyliedig.

4.28 Mewn theori, byddai hyn yn golygu newid y model presennol, oherwydd byddai brysbennu yn golygu y byddai rhai achosion yn cael eu hystyried yn anaddas i siarad â phlant yn eu cylch. Fodd bynnag, mewn gwirionedd, mae brysbennu o'r fath eisoes yn digwydd yn anffurfiol o ran cymryd rhan. Y Cynghorwyr Llys Teulu sy'n penderfynu a ddylid ymgynghori â phlant yn y rhan fwyaf o achosion. Y cwestiwn mwy cyffredin yw a ddylai'r model Braenaru ffurfioli hyn.

*Cyfyngiadau amser sy'n bodoli eisoes ond sy'n achosi problemau cynyddol*

4.29 Ymddangosai fod y terfynau amser anhyblyg o dan y model Braenaru yn gwneud rhai o'r cyfyngiadau ar amser ac adnoddau a oedd yn bodoli eisoes o dan y model busnes fel arfer yn waeth. Y prif gyfyngiad a ddisgrifwyd gan Gynghorwyr Llys Teulu oedd effaith ganlyniadol gorfod aros i wiriadau gan asiantaethau gael eu dychwelyd cyn y gellid dechrau gwaith sylweddol ar achosion. Er bod modd gwneud rhywfaint o waith rhagarweiniol ar gam cynnar, yn aml, nid yw'n briodol ymgysylltu â phlant heb driongli ac asesu gwybodaeth diogelu o ffynonellau gwahanol yn gyntaf. Roedd hyn yn golygu, er gwaethaf y terfyn amser o chwe wythnos “yn aml nid ydych yn cael chwe wythnos” (Cyfranogwr 3).

4.30 Esboniodd un cyfranogwr sut roedd hyn yn effeithio ar yr amser sydd ar gael i weithio gyda phlant:

> “Rwy'n credu bod gwneud rhai o'r pethau hynny – casglu'r holl wybodaeth, ystyried y cyfan ac yna wneud darnau eraill o waith, oherwydd weithiau mae'r wybodaeth yn hwyr yn dod yn ôl hefyd. Felly, yn aml, nid ydych yn gwneud

rhai o'ch galwadau ffôn na'ch cyfweliadau nes eich bod wedi cael gwybodaeth gan yr asiantaethau. Gall hynny yn aml adael wythnos neu ddwy i chi fynd allan i weld plant, a all fod ychydig yn frysiog wedyn." (Cyfranogwr 10)

4.31 Mae'r risg sy'n gysylltiedig â therfynau amser anhyblyg sy'n arwain at gyfleoedd 'brysiog' i ymgysylltu â phlant yn arbennig o bwysig i'w hystyried yng ngoleuni'r teimladau cymysg yn y cyfweliadau â'r plant ynglŷn â'r amser oedd ar gael i fynegi eu barn. Ystyrir hyn yn fanylach isod.

**Beth yw'r effaith ar gymryd rhan?**

4.32 Rydym wedi amlinellu'n benodol sut roedd Cynghorwyr Llys Teulu yn teimlo o dan bwysau o ran amser am fod hynny'n helpu i roi elfennau o adborth y plant ynglŷn â hyd a chyflymder eu cyfarfodydd â Cafcass Cymru yn eu cyd-destun. Efallai nad yw'n syndod bod cyfarfodydd â Chynghorwyr Llys Teulu weithiau'n fyrrach na'r disgwyl i blant o ystyried y terfynau amser tynn y mae Cynghorwyr Llys Teulu yn gweithredu oddi mewn iddynt. Wrth fyfyrio ar y grwpiau ffocws a'r cyfweliadau, mae'n ymddangos nad yw Cynghorwyr Llys Teulu bob amser yn teimlo y byddent yn cael yr amser i wneud rhai o'r pethau a nodwyd gan y plant a fyddai'n gwella eu profiad o gymryd rhan mewn gweithrediadau.

4.33 Er enghraifft, yn yr adran flaenorol, nodir y gallai mwy nag un ymweliad neu ymweliadau ymgyfarwyddo fod yn ddefnyddiol i blant o wahanol oedrannau. Fodd bynnag, mae hyn yn gofyn am rywfaint o hyblygrwydd nad oedd gan y cyfranogwyr yn y grwpiau ffocws yn eu tyb nhw. Cafwyd cytundeb cyffredinol nad yw'n ddichonadwy gweld y plant fwy nag unwaith neu mewn lleoliadau gwahanol bob amser, o ystyried y cyfyngiadau amser ar y Cynghorwyr Llys Teulu. "Yn fy marn i, nid yw hynny'n ddichonadwy wrth ysgrifennu'r adroddiad cyntaf. Rwy'n credu y byddai'n rhaid i chi argymell [adroddiad] Rhan 2 pe baech yn mynd i wneud hynny. A dweud y gwir. Rydych yn lwcus, dywedwn i, os gallwch gael amser i gynnal un ymweliad â phlentyn neu'r cartref ynghyd ag ymweliad annibynnol" (Cyfranogwr 4)

4.34 Felly, er bod y model fel petai'n cynnig mwy o hyblygrwydd i Gynghorwyr Llys Teulu o ran pryd a sut i ymgysylltu â phlant, oni bai bod mwy o hyblygrwydd ynglŷn â'r terfynau amser ar gyfer paratoi Adroddiadau ar yr Effaith ar y Plentyn, mae diffyg

amser yn achosi'r risg o leihau potensial y model Braenaru i wella profiadau o gymryd rhan mewn gweithrediadau.

4.35 Yn yr un modd, dywedodd rhai plant y byddai wedi bod yn fuddiol pe baent wedi cael gwybod am benderfyniad y llys gan drydydd parti niwtral neu pe bai rhywun wedi esbonio iddynt beth oedd wedi digwydd yn y llys.

4.36 Roedd Cynghorwyr Teulu Llys yn gweld y byddai'n werthfawr gallu esbonio agweddau ar y broses i blant ar ôl y gwrandawiad, yn enwedig lle nad oedd y canlyniad wedi bod o'u plaid. Disgrifiodd un Cynghorydd Llys Teulu fel yr oedd wedi esbonio'r canlyniad i ferch nad oedd ei dymuniadau wedi cael eu datrys yn llawn drwy'r gorchymyn ac wedi “ceisio cadarnhau bod y barnwr wedi gwrando ar ei dymuniadau a bod ei thad wedi gwrando ar ei dymuniadau a'i theimladau” (Cyfranogwr 8).

4.37 Fodd bynnag, dywedodd Cynghorwyr Llys Teulu mai anaml y byddai hyn yn digwydd oherwydd cyfyngiadau amser, gan nodi mai dim ond os oedd y llys wedi rhoi cyfarwyddyd iddynt y byddent yn gwneud hyn.

“Os ydych wedi cael gorchymyn, ni chredaf y byddem yn gwneud hynny pe na bai gorchymyn” (Cyfranogwr 8)

“[Rwyf wedi gwneud hynny] lle roedd gorchymyn i'w wneud a bod yr amgylchiadau yn anodd iawn lle na ellid dibynnu ar y rhieni i rannu'r wybodaeth gywir” (Cyfranogwr 9)

4.38 Roedd nifer o resymau eraill dros hyn ar wahân i amser. Er enghraifft “erbyn i ni allu eu gweld eto, byddent yn eithaf pryderus” (Cyfranogwr 8) ac “yn aml, nid ni yw'r rhai gorau i rannu'r wybodaeth honno” oherwydd “nid ydym wedi datblygu perthynas arwyddocaol â nhw” (Cyfranogwr 10). Fodd bynnag, awgrymodd adborth gan rai o'r plant mai'r hyn a oedd yn bwysig oedd cael rhywun â mwy o bellter y gellid ymddiried ynddo/ynddi i gyfleu'r ffeithiau pan nad oedd eu rhieni yn gallu gwneud hynny.

## 5. Casgliadau

5.1 Nod yr astudiaeth hon oedd rhoi dealltwriaeth fanwl o brofiadau plant o gymryd rhan mewn gweithrediadau preifat. Yn y penodau blaenorol, nodwyd profiadau'r Cynghorwyr Llys Teulu a'r plant a rhoddwyd dyfyniadau eglurhaol ac enghreifftiau o ymarfer. Yn yr adran hon, crynhoir prif ganfyddiadauo'r grwpiau ffocws a'r cyfweliadau, a thynnir sylw at yr hyn sy'n gweithio'n dda o ran cymryd rhan o dan y model Braenaru, a pha feysydd y mae angen eu gwella o hyd. Mae'r adran yn gorffen gyda rhai ystyriaethau o ymchwil bellach a thrwy fyfyrio ar gryfderau a chyfyngiadau'r astudiaeth.

5.2 Roedd y Cynghorwyr Llys Teulu yn teimlo bod y model Braenaru yn rhoi lle blaenllaw i safbwyntiau'r plant, ac yn rhoi mwy o ystyriaeth, ac ystyriaeth fanylach, iddynt yn gynharach, a bod y llysoedd yn cymryd eu safbwyntiau o ddifrif. Cefnogir hyn gan ddisgrifiadau'r plant, gyda'r rhan fwyaf ohonynt yn fodlon ar ganlyniad eu hachos ac yn teimlo bod eu Cynghorydd Llys Teulu wedi gwrando arnynt ac yn ystod y gweithrediadau. Roedd y plant hefyd yn fodlon ar y cyfan bod Cafcass Cymru wedi gofyn am eu safbwyntiau, gan ddweud bod y profiad yn gadarnhaol ar y cyfan.

5.3 Mae'n ymddangos bod cynnwys plant ar gam cynharach hefyd yn arwain at fanteision posibl y tu hwnt i gymryd rhan mewn prosesau gwneud penderfyniadau. Roedd y Cynghorwyr Llys Teulu yn teimlo y gallai leihau'r straen i blant a rhieni drwy eu galluogi i ymyrryd cyn bod cyfle i ragor o elyniaeth ddatblygu. Ategwyd hyn i ryw raddau gan y plant a ddywedodd eu bod yn teimlo mwy o dawelwch meddwl a rhyddhad ar ôl siarad â Chynghorydd Llys Teulu. Gellir dweud y gallai'r ymyriad cynharach gan Cafcass Cymru roi cyfle i rieni ddatrys unrhyw wrthdaro yn gynt, gan leihau'r effaith ar eu plant. Disgrifiodd y Cynghorwyr Llys Teulu yn fanwl sut roeddent yn defnyddio llais y plentyn i ysgogi newidiadau cadarnhaol yn ymddygiad y rhieni. Nid oes modd casglu o'r cyfweliadau â'r plant ai felly y mae, ond gallai astudiaethau â rhieni yn y dyfodol ystyried eu safbwyntiau ar y gwahaniaeth a wneir drwy wrando ar farn eu plentyn.

5.4 Roedd rhai Cynghorwyr Llys Teulu yn teimlo mai un o fanteision ymgysylltu'n gynharach oedd eu bod yn gallu egluro'r sefyllfa i blant a allai deimlo dryswch

ynglŷn â'r hyn sy'n digwydd yn eu teulu. Cymysg fu'r dystiolaeth ategol o'r cyfweliadau yn hyn o beth. Er bod un ferch wedi dweud ei bod yn teimlo bod Cafcass Cymru wedi esbonio pethau'n glir iawn iddi, roedd y mwyafrif o'r plant yn teimlo dryswch cyn, yn ystod, ac ar ôl ymgysylltu â'u Cynghorydd Llys Teulu. Er bod rhywfaint o hyn yn anochel, o ystyried amgylchiadau'r teulu, dylid ymdrin ag unrhyw ddryswch ynglŷn â'r hyn y mae'r Cynghorydd Llys Teulu yn ei wneud pan fydd yn cyfarfod â'r plentyn a beth fydd yn digwydd nesaf drwy hysbysu plant mewn ffyrdd mwy eglur a chofiadwy. Dylai hyn leihau unrhyw bryder ynglŷn â'r cyfarfod a sicrhau disgwyliadau cliriach.

5.5 Yn yr un modd, nid oedd plant yn y sampl hon yn ymwybodol ar y cyfan o'u hawl i wneud dewisiadau ynglŷn â phryd a sut i ymgysylltu â Cafcass Cymru. Ymddangosai mai'r rhieni oedd yn cael eu hysbysu am y dewisiadau hyn yn ôl pob tebyg, a nhw wedyn a oedd yn penderfynu beth fyddai'n fwyaf addas i'w plentyn ar y cyfan. Mewn rhai achosion, roedd hyn wedi gweithio'n dda i'r plant, ond roedd gan eraill farn gref ynglŷn â sut roedd diffyg dewis o ran lleoliad/dull ymgysylltu wedi effeithio ar eu cyfle i ddweud eu dweud.

5.6 Nid oedd y plant yn ymwybodol iawn ychwaith o'r ffyrdd amgen o gymryd rhan mewn prosesau cyfranogol. Ategwyd hyn gan ganfyddiadau'r grwpiau ffocws. Dim ond un Cynghorydd Llys Teulu a ddisgrifiodd achosion lle roedd y plant wedi cyfarfod â'r barnwr neu wedi mynd i'r llys. Mae canfyddiadau'r astudiaeth hon yn amwys yn hyn o beth. Ar y naill law, mae'r cyfweliadau yn awgrymu y byddai plant yn annhebygol o ddewis y dulliau ychwanegol hyn o gymryd rhan mewn niferoedd mawr. Dywedodd y mwyafrif na fyddent wedi dewis mynd i'r llys na chyfathrebu â'r barnwr pe baent wedi cael cynnig i wneud hynny. Ar y llaw arall, roedd un plentyn, a ddisgrifiodd gael cyfle i fynd i'r llys, wedi gwrthod gwneud hynny am ei bod yn teimlo gormod o fraw ond dywedodd y byddai wedi dewis ysgrifennu llythyr pe bai wedi cael y cyfle i wneud hynny. Mae hyn yn awgrymu y gallai ymgais i gyfleu opsiynau'r plant yn well a mwy o hyblygrwydd ynglŷn â sut maent yn mynegi eu barn i'r barnwr, er enghraifft, yr opsiwn i'w recordio eu hunain yn siarad ymlaen llaw yn hytrach na siarad â chynulleidfa, annog mwy o blant a phobl ifanc i gymryd rhan.

5.7 Roedd yn amlwg o'r grwpiau ffocws bod y Cynghorwyr Llys Teulu yn ymwybodol iawn bod risg o ôl effeithiau i blant a phobl ifanc sy'n cymryd rhan. Cyfeiriodd Cynghorwyr Llys Teulu at hyn yn gryno yn unig, ac yng nghyd-destun plant iau ar y cyfan, ond roedd y cyfweliadau â phlant hŷn yn eu harddegau yn enwedig wedi tynnu sylw at ystyriaethau amrywiol, gan gynnwys: risgiau sy'n gysylltiedig ag 'ochri gydag un rhiant neu'r llall'; baich cefnogi brodyr/chwiorydd iau drwy'r broses; risg y byddent yn beio eu hunain lle nad yw canlyniad y gweithrediadau yn union fel roedd y plentyn yn ei obeithio; a'r potensial y gallai cael gwybod am broses y llys (e.e. methiant rhiant i fod yn bresennol) achosi mwy o drallod. Mae'r canfyddiadau hyn yn unol ag ymchwil flaenorol i natur drallodus amgylchiadau lle mae'r rhieni yn gwahanu a'r potensial i weithrediadau llys wneud hyn yn waeth (Roe et al., 2021)

5.8 Mae'n amlwg y byddai'n fuddiol i rai plant (nad yw'r llys wedi gorchymyn yn benodol iddynt gael eu hysbysu gan Gynghorydd Llys Teulu o'r penderfyniad) pe baent yn cael cyfle i drafod yr hyn a ddigwyddodd yn y llys â thrydydd parti niwtral. Yn y rhan fwyaf o achosion, mae'n afrealistig ac yn anymarferol disgwyl i Gynghorwyr Llys Teulu Cafcass Cymru allu hysbysu plant am y penderfyniad **yn y lle cyntaf**. Fodd bynnag, mae'n debygol y byddai'n fuddiol i rai plant y mae eu rhieni yn anghyd-weld pe bai trydydd parti dibynadwy wedyn yn trafod yr hyn a ddigwyddodd yn ystod y gweithrediadau. Mae hyn yn arbennig o bwysig o ystyried bod plant wedi disgrifio sut roedd 'pytiau bach' o wybodaeth ynglŷn â'r ffordd roedd eu rhieni wedi ymddwyn wedi aros yn y cof ac yn dal i achosi rhwystredigaeth a chynnwrf iddynt.

5.9 Roedd cyffelybiaeth amlwg rhwng y cyfyngiadau amser a ddisgrifwyd gan y Cynghorwyr Llys Teulu a phrofiadau rhai plant o ryngweithio â Cafcass Cymru a oedd yn fyrrach, ar fwy o frys ac yn llai manwl na'r hyn roeddent wedi'i ddisgwyl. Roedd achos Matt yn enghraifft amlwg o berson ifanc lle roedd angen dull gweithredu mwy hyblyg, p'un a oedd hynny'n golygu cyfle i ddweud, 'allwch chi ddod yn ôl yfory?', gofyn am fwy o amser gyda'i Gynghorydd Llys Teulu a/neu gyfarfod rhagarweiniol ag ef/hi. Fodd bynnag, yn y grwpiau ffocws, disgrifiodd y Cynghorwyr Llys Teulu ddiffyg hyblygrwydd anorfod yn hyn o beth am fod amser yn rhy brin. Byddai cynnig terfynau amser mwy hyblyg i Gynghorwyr Llys Teulu yn arwain at fwy o ddewis i blant ynghylch a ddylent gymryd rhan a sut, a gallai eu galluogi i fynegi eu safbwyntiau'n llawnach.

**Ystyriaethau ar gyfer ymchwil yn y dyfodol**

5.10 Roedd y Cynghorwyr Llys Teulu yn teimlo'n gryf, mewn rhai achosion, y byddai prosesau cyfranogol a newidiadau eraill a gyflwynir gan y model Braenaru yn hollol briodol ac i'w groesawu'n fawr. Mewn sefyllfaoedd llai cymhleth, roeddent yn teimlo mai'r ffordd fwyaf effeithiol o ddatrys achosion i deuluoedd fyddai drwy weithredu yn debyg i'r model busnes fel arfer.

5.11 Roedd y Cynghorwyr Llys Teulu yn teimlo bod gweithio gyda mwy o blant ar gam cynharach yn arwain at fwy o amser ac ymdrech ar ddatrys problemau rhwng rhieni ac eirioli dros blant. Y bwriad y tu ôl i'r model Braenaru yw bod mwy o'r gwaith hwn gyda theuluoedd yn cael ei wneud ar ddechrau'r broses sydd wedyn yn arwain at leihau faint o amser yn gyffredinol y mae Cafcass Cymru yn ei dreulio ar achosion am eu bod yn cael eu datrys mewn ffordd gyflymach a mwy effeithiol. Mae'n bosibl, ar hyn o bryd, fod Cynghorwyr Llys Teulu yn gweld yn uniongyrchol fod mwy o'r gwaith hwn yn cael ei wneud yn gynharach ond nad ydynt yn gweld manteision posibl hyn ymhellach ar hyd y broses. Wrth gwrs, amser a ddengys a fydd y model Braenaru yn arwain at leihau faint o amser ac adnoddau sydd eu hangen yn gyffredinol ac mae'n debygol y bydd hyn yn ffocws allweddol wrth werthuso'r model yn y dyfodol.

5.12 Mae cwestiynau moesegol hefyd yn bwysig o ran penderfynu ble i fynd nesaf o ran y model Braenaru. Er enghraifft, pa blant sydd â'r hawl i gael lleisio barn, ac ar ba fath o faterion? Mae ymarferwyr eisoes yn ymdrin â'r penderfyniadau moesegol hyn yn anffurfiol ond p'un a ddylai'r model Braenaru ffurfioli 'llwybrau' gweithdrefnol a chyfranogol gwahanol ar gyfer mathau gwahanol o achosion yn ystyriaeth ehangach.

5.13 Er mwyn ymdrin â'r cwestiynau hyn, dylai gwaith ymchwil a gwerthuso yn y dyfodol ystyried y cyd-destun ehangach y mae'r model Braenaru yn gweithio oddi mewn iddo. Yn fwy penodol, gallai astudiaethau ystyried y berthynas rhwng ymwneud plant a'r penderfyniadau a wneir gan y llysoedd. Er enghraifft, gallai dealltwriaeth o'r ffordd y mae cyfranogiad plant ar gam cynnar yn dylanwadu ar ddatrys gwrthdaro rhwng rhieni daflu goleuni ar y ffordd y gall prosesau cyfranogol gefnogi penderfyniadau amserol ac effeithiol i deuluoedd. Yn ogystal â hyn, gallai

dealltwriaeth o brofiadau plant nad yw Cynghorwyr Llys Teulu yn siarad â nhw gynnig rhai cymariaethau defnyddiol â'r canfyddiadau hyn.

**Cryfderau a chyfyngiadau**

5.14 Gwnaeth yr astudiaeth hon ddatblygu dealltwriaeth gyfoethog a manwl o brofiadau plant o gymryd rhan mewn gweithrediadau preifat. Wrth wneud hynny, mae'n ystyried un o feysydd cyfiawnder teuluol nad oes digon o ymchwil wedi cael ei chynnal iddo yn ogystal â herio mythau ynglŷn â chymhwysedd a gallu plant i gymryd rhan mewn penderfyniadau a wneir yn eu cylch ac mewn ymchwil i'w profiadau. Roedd cyfranogwyr yn yr astudiaeth hon yn gallu rhoi disgrifiadau myfyriol manwl a chynnil. Mae'r astudiaeth hefyd yn gwrthsefyll tybiaethau bod ymchwil gyda phlant yn rhy heriol, yn foesegol neu'n ymarferol, i'w chyfiawnhau.

5.15 Roedd y sampl yn eithaf amrywiol o ran y math o gais a oedd yn cael ei wneud, y dull o ymgysylltu â Cafcass Cymru, a'r pryderon a oedd yn cael eu codi mewn gweithrediadau. Roedd hefyd yn cynnwys rhai grwpiau sydd heb gael cynrychiolaeth ddigonol mewn ymchwil flaenorol a/neu nad ydynt wedi cael eu cynnwys mewn prosesau cyfranogol (Roe et al., 2021). Roedd hyn yn cynnwys tri phlentyn 10 oed ac iau, a dau grŵp o frodyr/chwiorydd, y mae ymarferwyr wedi nodi'n anecdotaidd eu bod weithiau yn cael eu trin yn homogenaidd yn hytrach nag fel unigolion.

5.16 Un o gyfyngiadau'r astudiaeth yw bod y sampl yn gymharol fach, ond mae'n gyson ag astudiaethau tebyg eraill sy'n cynnwys plant, er enghraifft Symonds a chydweithwyr (2022) a gyfwelodd 12 o blant a phobl ifanc 6-23 oed ynghyd â'u teuluoedd (Symonds et al., 2022). Y mater allweddol i'r astudiaeth hon yw nid maint y sampl fel y cyfryw ond y ffaith bod y gronfa o ddarpar gyfranogwyr wedi cael ei defnyddio cyn cadarnhau a oedd y data wedi cyrraedd pwynt dirlawnder. Y pwynt dirlawnder yw pan na fydd y data newydd sy'n cael eu casglu yn arwain at unrhyw ddealltwriaeth/themâu ychwanegol mwyach a hwn yw'r maes prawf a ddefnyddir gan amlaf i asesu digonolrwydd samplau bwriadus mewn ymchwil ansoddol (Henink a Kaiser, 2022, t.1). Fel arfer, mae astudiaethau ansoddol yn peidio â recriwtio rhagor pan gyrhaeddir y pwynt dirlawnder. Yn yr astudiaeth hon, gwahoddwyd pob cyfranogwr cymwys i gymryd rhan a chyfwelwyd pawb a dderbyniodd y gwahoddiad

o fewn yr amser a oedd ar gael. Gallai astudiaethau yn y dyfodol ystyried defnyddio llai o feini prawf recriwtio (er enghraifft, cyfweld plant ar wahanol gamau o'r gweithrediadau, neu cyn bod achosion yn cael eu cau'n ffurfiol) er mwyn cynyddu maint y boblogaeth gymwys.

Un o gyfyngiadau eraill yr astudiaeth oedd natur hunanddewisol y sampl. Roedd hyn yn anochel gydag astudiaeth ansoddol o'r fath ac nid oedd unrhyw fwriad i greu sampl gynrychioliadol. Fodd bynnag, awgrymodd adborth (nas ceisiwyd) gan rieni a wrthododd y gwahoddiad i'w plentyn/plant gymryd rhan fod teuluoedd a oedd yn anfodlon ar naill ai a) proses y llys, ii) y canlyniad, iii) neu gymorth Cafcass Cymru, yn dewis peidio â bod yn rhan o'r sampl. O ganlyniad i'r cynllun hwn a'r dull o recriwtio, dim ond y plant hynny a oedd yn barod i siarad â Chynghorydd Llys Teulu **ac** yn barod i drafod hyn gydag ymchwilydd oedd yn cael eu cynnwys, a all olygu bod y canfyddiadau yn fwy cadarnhaol na'r hyn y byddem wedi'i weld o bosibl mewn sampl ehangach. Gallai fod yn ddefnyddiol pe bai canfyddiadau'r astudiaeth hon yn cael eu hategu gan arolygon cynrychioliadol o rieni a phlant ar raddfa fawr, er mwyn casglu safbwyntiau'r rhai sydd wedi dewis peidio â bod yn rhan o'r sampl.

## 6. Argymhellion

6.1 Mae'r adran hon yn manylu ar argymhellion ynglŷn â sut y gallai staff Cafcass Cymru ac uwch-arweinwyr ddefnyddio canfyddiadau'r astudiaeth hon i wella'r ffordd y mae plant yn cymryd rhan mewn gweithrediadau preifat. Mae'r argymhellion wedi'u strwythuro o dan bedwar prif bennawd, gyda manylion mwy penodol yn cael eu rhoi o dan bob un.

**Dylid sicrhau bod dewisiadau yn rhaeadru i lawr i blant**

6.2 Dylid sicrhau bod plant a phobl ifanc yn chwarae rhan weithredol wrth benderfynu a ddylid ymgysylltu â Cafcass Cymru, sut, pryd a ble.

6.3 Dylid dod o hyd i ffyrdd i blant gyfleu eu dewisiadau mor annibynnol ag y bo'n briodol. Gellid gwneud hyn drwy siarad â'r plant neu'r rhieni dros y ffôn ymlaen llaw neu drwy anfon llythyrau rhagdaledig i'w dychwelyd at y Cynghorydd Llys Teulu gan ddewis o blith nifer o opsiynau neu lythyrau â chodau QR sydd â dolen i wefan lle y gall plant wneud dewisiadau.

6.4 Dylid gofyn i blant sut yr hoffent gael eu hysbysu am yr hyn sy'n digwydd yn y llys, ac a hoffent gael galwad ffôn ddilynol i drafod pethau.

**Dylid adolygu a gwella'r broses o rannu gwybodaeth â phlant:**

6.5 Dylid cyfeirio plant at wybodaeth hygyrch am yr hyn y mae siarad â Cafcass Cymru yn ei olygu cyn cyfarfod â nhw.

6.6 Dylid adolygu cynnwys adnoddau presennol Cafcass Cymru a'r wybodaeth sydd ar gael i'r cyhoedd er mwyn sicrhau bod y rhain yn cynnwys gwybodaeth benodol am y Cynghorydd Llys Teulu y bydd y plant yn cyfarfod ag ef/hi ac enghreifftiau o'r cwestiynau y byddant yn eu gofyn.

6.7 Mewn ymgynghoriad â phlant a phobl ifanc, dylid adolygu pa *ddulliau* y dylid eu defnyddio i gyfathrebu er mwyn hwyluso cysylltiad mwy uniongyrchol â phlant cyn cyfarfod. Os nad oes modd e-bostio plant na siarad â nhw dros y ffôn, efallai y bydd llythyrau ffisegol i'w cyfeiriad yn gwneud i blant deimlo y cysylltir â nhw'n bersonol yn hytrach na thrwy eu rhieni.

6.8 Yn ystod cyfarfodydd, dylai Cynghorwyr Llys Teulu gyflwyno gwybodaeth mewn ffyrdd sydd fwyaf tebygol o aros yng nghof y plant. Er enghraifft, gellid defnyddio ciwiau gweledol, neu drosiadau i esbonio diben y cyfarfod, neu ddarparu rhywbeth y gall y plant fynd adref gydag ef a fydd yn eu hatgoffa pam y siaradwyd â nhw.

6.9 Ar ôl cyfarfodydd, dylid cyfeirio plant a phobl ifanc at wasanaethau cymorth i deuluoedd sy'n gwahanu a restrir ar wefan Cafcass Cymru.

**Dylid bod yn hyblyg er mwyn rhoi mwy o lais i blant**

6.10 Dylid cynnig ymweliadau ymgyfarwyddo/galwadau ffôn i blant o bob oedran, nid dim ond y plant iau.

6.11 Dylid sicrhau bod opsiynau amgen/ychwanegol o gymryd rhan yn cael eu hesbonio i blant a phobl ifanc fel mater o drefn.

6.12 Dylid gweithio gyda phlant i addasu dulliau cymryd rhan er mwyn gwneud iddynt deimlo'n gyfforddus. Gallai hyn gynnwys ysgrifennu llythyrau a thynnu lluniau, neu recordio fideo neu nodyn llais ymlaen llawn ar eu ffôn.

**Dylid ystyried sut y gallai terfynau amser anhyblyg effeithio'n andwyol ar gymryd rhan**

6.13 Mewn cyfarfodydd, dylai Cynghorwyr Llys Teulu ofyn digon o gwestiynau i sicrhau bod plant yn teimlo bod Cynghorwyr Llys Teulu wedi ymgynghori'n briodol â nhw a bod y plant wedi cael digon o gyfle i ddweud eu dweud.

6.14 Dylai arweinwyr systemau a'r farnwriaeth ystyried sut y gellid gwneud terfynau amser tynn yn fwy hyblyg os caiff y model Braenaru ei gyflwyno yn y dyfodol. Bydd hyn yn helpu i sicrhau bod cyfarfodydd â phlant yn rhoi cyfle iddynt fynegi eu barn ar weithrediadau'n llawn a chymryd rhan i'r graddau yr hoffent. Dylai hyn gynnwys ystyried sut y gellir gweithio ar achosion sy'n amrywio o ran cymhlethdod mewn ffordd amserol ac effeithlon sy'n rhoi cyfle i blant leisio eu barn.

## 7. Cyfeiriadau


Bingham, A.J. (2023). From data management to actionable findings: A five-phase process of qualitative data analysis. International Journal of Qualitative Methods.

Bingham, A.J., a Witkowsky, P. (2022). Deductive and inductive approaches to qualitative data analysis. In C. Vanover, P. Mihas, a J. Saldaña (Golygyddion.), Analyzing and interpreting qualitative data: After the interview (tt. 133-146). Cyhoeddiadau SAGE.

Braun, V. a Clarke, V. (2006) 'Using thematic analysis in psychology', *Qualitative Research in Psychology*, 3(2), tt. 77–101.

Butler, I., Scanlan, L., Robinson, M., Douglas, G., a Murch, M. (2002). Children's involvement in their parents' divorce: Implications for practice. Children & Society, 16(2), 89–102.

Charmaz, K. (2006) *Constructing grounded theory: a practical guide through qualitative analysis*. Llundain: Sage.

Checkoway, B. (2011) 'What is youth participation?', *Children and Youth Services Review*, 33(2), tt. 340–345.

Cusworth, L. et al., (2020). Uncovering private family law: Who's coming to court in Wales? Llundain: Arsyllfa Cyfiawnder Teuluol Nuffield.

Cusworth, L. et al., (2021). Uncovering private family law: Who's coming to court in England? Llundain: Arsyllfa Cyfiawnder Teuluol Nuffield.

Esterberg, K.G. (2002). Qualitative methods in social research. McGraw–Hill.

Grover, S. (2004). Why Won't they listen to us? On giving power and voice to children participating in social research. Cyhoeddiadau SAGE, 11(1), t. 81–93.

Hennink MM, Kaiser BN, Weber MB. What Influences Saturation? Estimating Sample Sizes in Focus Group Research. Qualitative Health Research. 2019;29(10):1483-1496.

Hunter, R., Burton, M., a Trinder, L. (2020). Asesu'r risg o niwed i blant a rhieni mewn achosion plant cyfraith breifat: Adroddiad terfynol. Llundain: Y Weinyddiaeth Gyfiawnder

King, N. (2004). Using Interviews in Qualitative Research. In C. Cassel, a G. Symon (Golygyddion), Essential Guide to Qualitative Methods in Organizational Research (tt. 11-22). Cyhoeddiadau SAGE.

Y Weinyddiaeth Gyfiawnder (2023) *Cefnogi penderfynu cynharach ar drefniadau cyfraith teulu breifat: Ymgynghoriad ar ddatrys anghydfodau cyfraith teulu breifat yn gynharach drwy gyfryngu teuluol.*

Patton MQ (2002) Two decades of developments in qualitative inquiry: A personal, experiential perspective. *Qualitative Social Work* 1(3): 261–283.

Gweithgor Cyfraith Breifat (2020) *Private Law Family Disputes: The time for change; the need for change; the case for change - Second Report to the President of the Family Division*.

Practice Direction 12b – Child Arrangements Programme PRACTICE DIRECTION 12B – CHILD ARRANGEMENTS PROGRAMME

Practice Direction 36z - Pilot Scheme: Private Law Reform: Investigative Approach

Roe, A. et al. (2021). Children's experience of private law proceedings: Six key messages from research. Cyfres Spotlight. Llundain: Arsyllfa Cyfiawnder Teuluol Nuffield.

Shier, H. (2001) 'Pathways to participation: openings, opportunities and obligations', *Children & Society*, 15(2), tt. 107–117.

Silverman, D. (2013). Doing Qualitative Research (4ydd argraffiad). Llundain: Sage.

Symonds, J. et al. (2022). Separating families: Experiences of separation and support. Arsyllfa Cyfiawnder Teuluol Nuffield.

Deddf Plant, 1989, Deddf Plant

Thomas, N. (2007) 'Towards a Theory of Children's Participation', *International Journal of Children's Rights*, 15(2), tt. 199–218.

Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP), Tachwedd 20 1989,

## 8. Atodiadau

### Atodiad A: Amserlen gyfweld y grwpiau ffocws

**Ymchwil i brofiadau plant o gymryd rhan yn y llysoedd teulu: grwpiau ffocws ag ymarferwyr Cafcass Cymru**

***Sut mae'n gweithio?***

1. Sut mae'r model yn newid y ffordd rydych yn gweithio gyda phlant a phobl ifanc yn benodol?
    i. Holi ymhellach: A oes enghreifftiau o bethau rydych wedi llwyddo i'w gwneud gyda phlant a phobl ifanc o dan y model Braenaru na fyddent wedi bod yn bosibl o dan y model busnes fel arfer?
    ii. Holi ymhellach: A yw plant a phobl ifanc (neu rieni) sydd wedi cael profiad o broses y model busnes fel arfer wedi gwneud sylwadau ar y gwahaniaeth o ran gweithredu?
2. Sut mae'r model yn newid y math o blant rydych yn ymgysylltu â nhw (os o gwbl)?
    a. Holi ymhellach: A ydych yn ymgysylltu â phlant na fyddech yn ymgysylltu â nhw fel arfer?
    b. (lle mae pwyslais cyfarwyddyd ymarfer 12B yw y dylai'r rhieni / y llys geisio datrys achosion / dod ag achosion i ben heb orchymyn adroddiad a7 ac felly nad yw barn plant yn cael ei cheisio).
3. A oes grwpiau o blant rydych yn teimlo bod gweithio o dan y model Braenaru yn ddefnyddiol iawn neu'n heriol iawn iddynt? E.e. plant o oedrannau penodol.

***Effaith – pa wahaniaeth y mae'n ei wneud***

Soniwch fwy am y newidiadau y mae'r model Braenaru yn eu cyflwyno mewn perthynas â chymryd rhan a cheisiwch gwmpasu 4 maes:

4. Yn gyffredinol, i ba raddau rydych yn teimlo bod plant yn cael **mwy o lais** mewn gweithrediadau?
    i. Holi ymhellach: A yw plant yn cyflwyno pynciau mewn gweithrediadau na fyddent fel arall yn cael eu hystyried, neu'n newid y ffordd y trafodir y pynciau hyn?
    ii. Holi ymhellach: A oes mwy o blant yn cymryd rhan yn yr elfennau o weithrediadau nad ydynt yn orfodol? E.e. ysgrifennu at y Barnwr
5. A oes enghreifftiau eraill lle rydych yn teimlo eich bod yn gallu deall safbwyntiau'r plant/gweithio gyda nhw yn fwy effeithiol o ganlyniad i ddefnyddio'r model Braenaru?
6. Pa heriau rydych wedi dod ar eu traws wrth weithio gyda phlant a phobl ifanc o dan y model Braenaru?
7. Beth fyddech chi'n ei newid ynglŷn â'r ffordd y rhoddir y model ar waith?

8. O ran sut brofiad y mae plant yn ei gael wrth weithio yn y ffordd hon yn eich barn chi...i ba raddau y mae **plant yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n well a bod eraill yn gwrando arnynt yn well**, yn eich barn chi? Pa dystiolaeth sydd gennym ynglŷn â hyn?
9. I ba raddau rydych yn teimlo bod plant yn cael gwell gwybodaeth ynglŷn â'r hyn sy'n digwydd o dan y model Braenaru?
    i. Holi ymhellach: Pa mor aml y mae plant yn cael gwybod am eu hawl i ddewis peidio â chymryd rhan mewn gweithrediadau?
10. I ba raddau rydych yn teimlo bod safbwyntiau plant yn **dylanwadu ar benderfyniadau** yn y llys?
    i. Holi ymhellach: Wrth drafod â phlant, a yw eu dealltwriaeth o'r graddau y gallant ddylanwadu ar benderfyniadau yn cyfateb i hyn? Hynny yw, a ydynt yn meddwl y gallant ddylanwadu ar benderfyniadau'n fwy neu'n llai nag y gallant mewn gwirionedd?
    ii. Holi ymhellach: A yw'r model Braenaru yn newid y ffordd y mae Barnwyr yn trin/defnyddio tystiolaeth a gasglwyd oddi wrth blant?

***Cloi***

11. A oes unrhyw beth nad ydym wedi ei drafod sy'n berthnasol yn eich barn chi ac yr hoffech ei ychwanegu?

**Atodiad B: nodweddion y samplau**

**Tabl 1: Nodweddion y sampl gyfweld**

| Ffugenw | Rhyw | Oedran | Gweithrediadau blaenorol |
|---|---|---|---|
| Archie | Gwryw | 11 | Na |
| Danny | Gwryw | 17 | Na |
| Dylan | Gwryw | 12 | Na |
| Ella | Benyw | 13 | Ie |
| Eloise | Benyw | 10 | Na |
| Harry | Gwryw | 9 | Ie |
| Jay | Gwryw | 8 | Na |
| Matt | Gwryw | 16 | Ie |
| Ria | Benyw | 14 | Na |
| Serena | Benyw | 16 | Na |
| Theo | Gwryw | 11 | Na |

**Tabl 2: Nodweddion sampl y grwpiau ffocws**

| Rhif Adnabod y Cyfranogwr | Profiad |
|---|---|
| Cyfranogwr 1 | Braenaru |
| Cyfranogwr 2 | Braenaru a Rhaglen Trefniadau Plentyn |
| Cyfranogwr 3 | Braenaru |
| Cyfranogwr 4 | Braenaru a Rhaglen Trefniadau Plentyn |
| Cyfranogwr 5 | Braenaru a Rhaglen Trefniadau Plentyn |
| Cyfranogwr 6 | Braenaru |
| Cyfranogwr 7 | Braenaru |
| Cyfranogwr 8 | Braenaru |
| Cyfranogwr 9 | Braenaru a Rhaglen Trefniadau Plentyn |
| Cyfranogwr 10 | Braenaru a Rhaglen Trefniadau Plentyn |

**Atodiad C: Amserlen gyfweld**

**Ymchwil i brofiadau plant o gymryd rhan yn y llysoedd teulu: cyfweliadau â phlant a phobl ifanc**

**Cyn i chi siarad â Cafcass Cymru...**

- A allwch ddweud wrtha i pryd y clywsoch chi gyntaf fod eich mam/tad wedi gofyn i'r llys teulu benderfynu beth oedd orau i'ch teulu? A esboniodd unrhyw un beth oedd yn digwydd?
    - Os do, allwch chi ddweud rhagor wrtha i am hynny?
    - Os naddo, sut cawsoch chi wybod beth oedd yn digwydd?
- Oeddech chi wedi clywed am y llys teulu neu am Cafcass Cymru cyn i chi gyfarfod â'r gweithiwr o Cafcass Cymru?
        - Os oeddech chi, sut? Oeddech chi wedi gweld unrhyw wybodaeth yn unrhyw le?
        - Os nad oeddech chi wedi gweld unrhyw wybodaeth, a oes unrhyw wybodaeth yr hoffech chi fod wedi'i chael cyn i chi gyfarfod â'r gweithiwr o Cafcass Cymru?
- A allwch chi ddweud wrtha i am y bobl wahanol sy'n gweithio yn y llys, os gallwch chi gofio?
    - Os gallwch chi, a allwch chi ddweud wrtha i beth yw eu swyddi? (Gweithiwr o Cafcass Cymru, barnwr)
    - *Os na all, esboniwch mai'r barnwr yw'r person sy'n gwneud y penderfyniad ac mai gwaith Cafcass Cymru yw canfod beth mae plant yn ei feddwl a beth maent am ei weld yn digwydd.*
- Cyn i chi gyfarfod â'r gweithiwr o Cafcass Cymru...
        - Beth oeddech chi'n meddwl byddai'n digwydd?
        - Beth oeddech chi'n gobeithio byddai'n digwydd?
        - Wyddech chi beth roeddech chi am ei weld yn digwydd yn barod?
- Cyn i chi gyfarfod â'r gweithiwr o Cafcass Cymru, sut roeddech chi'n teimlo? (SLEID)

**Pan wnaethoch gyfarfod â'r gweithiwr o Cafcass Cymru...**

- Allwch chi ddweud wrtha i sut brofiad oedd cyfarfod â'r gweithiwr o Cafcass Cymru? Sut brofiad oedd e?
    - Ble gwnaethoch chi gyfarfod â'r gweithiwr?
    - Pwy arall oedd yno?

  - Beth wnaethoch chi ei wneud/ei drafod gyda'ch gilydd?
  - Os gwnaethoch chi unrhyw weithgareddau gyda'ch gilydd, beth oeddech chi'n ei feddwl amdanyn nhw?
- A gawsoch chi gyfle i wneud dewisiadau am...
  - Ble gwnaethoch chi gyfarfod? Oeddech chi'n fodlon ar y lleoliad neu a fyddai wedi bod yn well gennych chi rywbeth gwahanol?
  - Pa weithgareddau wnaethoch chi? Oeddech chi'n fodlon ar yr hyn a wnaethoch chi neu a fyddai wedi bod yn well gennych chi rywbeth gwahanol?
  - P'un a oeddech chi'n siarad â Cafcass ai peidio?
- Oeddech chi'n teimlo eu bod yn gwrando arnoch chi? (SLEID)
  - Sut roeddent yn dangos eu bod yn gwrando?
- Pa mor gyfforddus oeddech chi yn rhannu'ch safbwyntiau? (SLEID)
- A gawsoch chi gyfle i ddweud popeth roeddech chi am ei ddweud? (SLEID)
- Yn gyffredinol, pa mor ddefnyddiol oedd siarad â'r gweithiwr, yn eich barn chi? (SLEID)
  - A oedd unrhyw beth arall a allai fod wedi gwneud siarad â'r gweithiwr o Cafcass yn well i chi?
  - Ar wahân i siarad â'r gweithiwr, a wnaethoch chi ddefnyddio unrhyw ffyrdd eraill i esbonio'ch safbwyntiau i Cafcass neu i'r barnwr? Weithiau, er enghraifft, mae plant yn ysgrifennu llythyr at y barnwr neu'n cyfarfod â'r barnwr, ond nid yw pawb yn gwneud hynny. O na wnaethoch chi hynny, a fyddech chi wedi hoffi cyfleu'ch safbwyntiau mewn ffordd wahanol?

**Ar ôl cyfarfod â'r gweithiwr o Cafcass Cymru...**

- Sut roeddech chi'n teimlo ar ôl siarad â nhw? A allwch chi ei gymharu â'ch teimladau cyn y cyfarfod? (SLEID)
- A glywsoch chi unrhyw beth wrth siarad â nhw nad oeddech chi'n ei wybod o'r blaen? A oedden nhw'n esbonio pethau mewn ffordd a oedd yn gwneud synnwyr? A oedd unrhyw beth a oedd yn ddryslyd neu'n gwneud i chi synnu?
- Sut y cawsoch chi wybod am beth roedd y barnwr wedi'i benderfynu? Oeddech chi'n fodlon ar glywed yn y ffordd hon neu a fyddai wedi bod yn well gennych chi glywed mewn ffordd arall?
- Mae'r barnwr yn gwrando ar farn llawer o bobl. Faint rydych chi'n credu y gwnaeth wrando ar yr hyn roeddech chi am iddo ddigwydd? (SLEID) Ar bwy arall roedd yn gwrando? Faint roedd yn gwrando ar y bobl hyn?

- Nawr ei bod wedi dod i ben, ydych chi'n credu ei fod yn beth da bod rhywun wedi dod i ofyn eich barn neu a fyddai'n well gennych chi pe bai'r oedolion yn datrys popeth rhyngddyn nhw? (SLEID)
- Pe bai gennych ffrind a ddywedodd wrthych chi fod ei rieni yn mynd i'r llys teulu hefyd, pa gyngor fyddech chi'n ei roi i'w helpu?

**Atodiad D: Fframwaith codio**

**Tabl 3: Fframwaith codio thematig – cyfweliadau â'r plant**

| Parth/maes | Thema | Is-themâu | Codau |
|---|---|---|---|
| Yn teimlo bod eraill yn gwrando arnynt | Mae cyfleu eich cwyn yn rhyddhad | Agweddau emosiynol pan fydd rhywun yn gwrando arnynt | Teimlo rhyddhad<br>Teimlo cyffro bod cyfle i ddweud fy marn |
| | Mae teimlo bod eraill yn gwrando yn hollbwysig o ran ennyn ymddiriedaeth ym mhroses y llys | Teimlo fy mod i'n gallu ymddiried yn fy ngweithiwr | Gweithiwr fel fy nghynrychiolydd<br>Gweithiwr fel fy eiriolwr |
| | | Teimlo na allaf ymddiried yn fy ngweithiwr | Rôl camddealltwriaeth<br>Mwy o bryderon am y llys |
| | | Teimlo na allaf ymddiried yn fy rhieni | Adroddiadau na ellir dibynnu arnynt |
| | Mae dweud wrth rywun sy'n gallu newid pethau yn eich grymuso | Dweud yn wahanol wrth rywun | Pwysigrwydd dweud wrth rywun newydd<br>Pwysigrwydd dweud wrth rywun 'swyddogol' |
| | | Siarad â phwrpas | Cyfle i newid pethau<br>Rhywun mewn rôl awdurdodol |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Cael gwybodaeth | Deall y darlun mawr ond teimlo dryswch ar y pryd | Deall rolau a chyfrifoldebau | Deall rôl Cafcass Cymru<br>Deall rôl y farnwriaeth |
| | | Gwybod beth sy'n digwydd yn fy nheulu (cyffredinol) | Dod i wybod am weithrediadau<br>Dod i wybod am Cafcass Cymru |
| | | Deall beth sy'n digwydd yn y cyfarfod | Dod i wybod am y cyfarfod<br>Deall diben y cyfarfod<br>Cofio wedyn |
| | | Datrys unrhyw ddryswch | Teimlo'n llai dryslyd wedyn<br>Teimlo'r un fath wedyn<br>Teimlo'n fwy dryslyd wedyn |
| | Ansicrwydd a disgwyliadau aneglur | Rhesymau dros deimlo'n nerfus cyn y cyfarfod | Ddim yn gwybod pa gwestiynau fydd yn cael eu gofyn<br>Ddim yn gwybod gyda phwy y bydda i'n cyfarfod<br>Ddim am beri gofid i neb |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | Rhesymau dros deimlo'n negyddol cyn y cyfarfod | Drysu rhwng Cafcass Cymru a sefydliadau eraill<br>Profiad gwael blaenorol gyda Cafcass Cymru |
| | Cael dewisiadau ond peidio â gwneud dewisiadau | Dewisiadau ymarferol | Dewis y lleoliad<br>Dewis pryd i gyfarfod<br>Dewis ymgysylltu ai peidio<br>Dewis y fformat (dros y ffôn ac ati) |
| | | Dewis dulliau amgen/ychwanegol o gymryd rhan | Mynd i'r llys fel opsiwn |
| | Dod i wybod am benderfyniad y llys | Yn hapus cael gwybod gan y rhiant/rhieni | Yn fwy cyfforddus<br>Yn fwy ymarferol |
| | | Am gael gwybod gan drydydd parti? | Rhywun niwtral<br>Rhywun y gallaf ymddiried ynddo/ynddi |
| Teimlo eu bod yn cael eu cefnogi | Rhywun i ochri gyda mi | Yn fy helpu i ddeall fy opsiynau | Cael opsiynau<br>Gwybod fy nymuniadau o'r cychwyn<br>Yn fy helpu gyda'r manylion |

| | | |
|---|---|---|
| | Risgiau dangos ochr | Profiadau negyddol blaenorol |
| Cymryd fy amser yn hytrach na mynd ag amser | Profiadau o beidio â theimlo bod yn rhaid brysio | Sgiliau'r gweithiwr<br>Profiadau wyneb yn wyneb<br>Profiadau o bell |
| | Profiadau o deimlo ar frys | Ymweliadau byrrach na'r disgwyl<br>Llai o gwestiynau na'r disgwyl |
| Materion amgylcheddol | Profiadau cadarnhaol o amgylchedd y swyddfa | |
| | Profiadau negyddol o amgylchedd y swyddfa | |
| Cymorth ar ôl cymryd rhan | Clywed pytiau bach am yr hyn oedd wedi digwydd yn y llys | Rhieni ddim yn mynd i'r llys<br>Rhieni ddim yn cymryd y camau a orfodir gan y llys |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | Risg o feio eu hunain | “Dwi i ddim yn un [siaradus/agored]”<br>Angen gwasanaethau cymorth |

**Tabl 4: Fframwaith codio thematig –cyfweliadau â'r grwpiau ffocws**

| Parth/maes | Thema | Is-themâu | Codau |
|---|---|---|---|
| Sut mae'r model Braenaru yn hyrwyddo cyfranogiad plant? | Sicrhau newidiadau yn ymddygiad rhieni | Effaith rhieni yn gwrando ar safbwyntiau eu plant | Enghreifftiau ymarfer o newid yn ymddygiad rhieni<br>Rôl y Cynghorydd Llys Teulu |
| | | Cyfryngu gan y Cynghorydd Llys Teulu | Amser a dreulir yn cyfryngu<br>Gwaith emosiynol sy'n rhan o gyfryngu<br>“Rwy'n teimlo fy mod i'n gwneud fy hen waith cymdeithasol” |
| | Lleihau'r straen ar y teulu a gorbryder plant | Osgoi sefyllfa lle mae gelyniaeth yn cynyddu | Cynnwys plant ar gam cynharach<br>Plant yn ymwybodol bod yr |

| | | |
|---|---|---|
| | | Apwyntiad Datrys Anghydfod Gwrandawiad Cyntaf y digwydd |
| | Mynd i'r afael ag unrhyw ddryswch i blant | Plant ddim yn gwybod beth sy'n digwydd<br>Cyfle i blant ofyn cwestiynau |
| Mae'n gallu rhoi lle blaenllaw a chanolog i leisiau plant o'r cychwyn cyntaf | | |
| Yn gallu cynrychioli lleisiau plant yn uniongyrchol yn yr Adroddiad ar yr Effaith ar y Plentyn | Myfyrio ar yr Adroddiad ar yr Effaith ar y Plentyn | Lefel y manylder<br>Dulliau o baratoi Adroddiad ar yr Effaith ar y Plentyn |
| | Plant sydd am gymryd rhan | Enghreifftiau ymarfer: plant sy'n gwybod beth yw eu dymuniadau<br>Enghreifftiau ymarfer: plant sydd am gael help i weithio allan beth maen nhw ei eisiau |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Cefnogi cyfranogiad anuniongyrchol | Plant na allant/nad ydynt yn dymuno cymryd rhan | Teimlo gwrthdaro rhwng rhieni<br>Anghenion ychwanegol |
| | | Opsiynau sydd ar gael i Gynghorwyr Llys Teulu | Myfyrio ar ddynameg y teulu<br>Arsylwadau<br>Ysgrifennu at y barnwr |
| | Cael profiad o dderbyniad cadarnhaol gan y farnwriaeth | Diddordeb | “mae'n bwysig i bawb sy'n gweithio yn y maes hwn”<br>Mwy o gyfrifoldeb ar Gynghorwyr Llys Teulu |
| | | Cymryd safbwyntiau plant o ddifrif | Enghreifftiau ymarfer: safbwyntiau plant yn gwneud gwahaniaeth |
| Heriau sy'n gysylltiedig â hyrwyddo cymryd rhan o dan y model Braenaru | Amser | Cyfyngiadau amser anhyblyg | Dull gweithredu un ateb i bawb<br>Mae angen i ni frysbennu<br>Effeithiau canlyniadol prinder amser |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | Cyfyngiadau amser sy'n bodoli eisoes ond sy'n achosi problemau cynyddol | Aros am wiriadau gan asiantaethau<br><br>Effaith ar yr amser sydd ar gael i weld plant |